Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales



CYFRES MEWNWELEDIAD

# Gwerth wythnosau ysgol anghymesur: Gwersi a ddysgwyd o ysgolion yng Nghymru

Gareth Evans
Canolfan Ddadansoddi ac Adolygu Polisi Addysg
Yr Athrofa: Institute of Education
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Hydref 2020

agaa.cymru | nael.cymru

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol

1 Cyflwyniad

2 Nodau a chwestiynau ymchwil

3 Y cyd-destun Cymreig

4 Adolygiad o lenyddiaeth

5 COVID-19

6 Methodoleg

7. Ystyriaethau moesegol

8. Canfyddiadau

8.1 Astudiaeth achos: Ysgol Gymunedol Doc Penfro

8.2 Astudiaeth achos: Ysgol Gyfun Treorci

9. Casgliad

10. Argymhellion

11. Cyfeiriadau

12. Atodiad

# Crynodeb gweithredol

Mae addysg yn newid yng Nghymru. Mae trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd yn sail i agenda ddiwygio gynhwysfawr, sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: ddatblygiadau yng nghynnig dysgu proffesiynol y genedl, darpariaeth arweinyddiaeth addysgol newydd, rhaglenni addysg gychwynnol arloesol i athrawon, ac adnewyddu cymwysterau arfaethedig. I gyd-fynd â'r hinsawdd hon o newid mae yna uchelgais i wneud pethau'n wahanol ac ailfeddwl am sawl agwedd ar ymarfer cyfredol i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn well yn amgylchedd yr 21ain ganrif.

Mae *Gwerth wythnosau ysgol anghymesur: Gwersi a ddysgwyd o ysgolion yng Nghymru* yn adeiladu ar y dyheadau newydd ac uchelgeisiol hyn i system addysg Cymru, ac yn cynnig myfyrdodau unigryw ar ddau ddull arloesol o drefnu'r wythnos ysgol. Ysbrydolwyd yr adroddiad gan gomisiwn newydd a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2019 i 'ail-feddwl am ysgolion', ac mae'n ystyried effaith trefniadau anghymesur ar ddwy ysgol – Ysgol Gyfun Treorci yn Rhondda Cynon Taf, ac Ysgol Gymuned Doc Penfro yn Sir Benfro – gyda golwg ar gael gwell dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd posibl sydd ar gael.

Mae'r adroddiad yn gallu cynnig 'gwersi a ddysgwyd' o'r ddwy ysgol oherwydd gonestrwydd, uniondeb a pharodrwydd arweinwyr yr ysgolion i gymryd rhan yn llawn yn y broses ymchwil. Mae cefnogaeth Michele Thomas a Rhys Angell Jones yn cael ei werthfawrogi'n fawr felly, yn enwedig mewn cyfnod heriol i addysgwyr ledled Cymru a'r byd yn ehangach. Mae dyfodiad pandemig COVID-19 wedi bod yn arwyddocaol iawn ac mae wedi cael effaith niweidiol iawn ar addysg ledled y byd.

Mae digwyddiadau diweddar, fodd bynnag, wedi creu lle i fyfyrio ar hanfod addysg, a'r ffordd y bydd systemau ein hysgolion yn gweithredu yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Mae wythnosau ysgol anghymesur yn cynnig un posibilrwydd o'r fath i addysgwyr, ac er bod y gwaith ymchwil hwn wedi'i gomisiynu ymhell cyn COVID-19, mae wedi dod yn fwy perthnasol o ystyried yr addasiadau creadigol y mae llawer o ysgolion yn gorfod eu gwneud.

Ar gais yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (Academi Arweinyddiaeth), a gydariannodd yr ymchwil, mae'r papur yn rhoi sylw arbennig i effaith bosibl trefniadau anghymesur ar iechyd a lles meddyliol athrawon, yn ogystal â'r amodau sy'n addas ar gyfer ffyrdd amgen o weithio. Mae'n ystyried safbwyntiau disgyblion a rhieni, a staff, ac yn dod i gyfres o gasgliadau ar sail cynrychiolaeth gan aelodau allweddol y gymuned ysgol. Mae'n nodi manteision pendant i ddysgu proffesiynol athrawon, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith addysgwyr a'r cyfleoedd cynyddol am ryngweithio cymdeithasol gyda theulu a ffrindiau.

O siarad yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r papur hwn yn cyflwyno darlun cymysg ynghylch effaith yr wythnos anghymesur, ac mae'n bwysig bod unrhyw ysgol sy'n ystyried newidiadau o'r fath yn cydbwyso costau a manteision gwneud hynny'n ofalus. Mae cyfraniadau pawb a oedd yn rhan o'r astudiaeth yn ein hatgoffa na fydd yr wythnos anghymesur yn gweithio i bawb, ac na fydd beth sy'n gweithio mewn un ysgol yn gweithio mewn ysgol arall o reidrwydd.

Yr hyn y mae wythnos anghymesur yn ei gynnig i bob ysgol, fodd bynnag, yw cyfle i ailystyried dulliau cyfredol a mwy traddodiadol o drefnu addysg a manteision creu cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol i staff, yn enwedig yng nghyd-destun y *Cwricwlwm newydd i Gymru*. Mae gan ganfyddiadau'r adroddiad nifer o oblygiadau i ysgolion sy'n ceisio mabwysiadu wythnos anghymesur, a chynigir cyfres o argymhellion lefel uchel i'r rhai sy'n ystyried trefniadau anghymesur.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn ceisio deall ymarferoldeb gweithredu wythnos ysgol anghymesur yn well, gyda golwg ar ategu'r dystiolaeth sydd ar gael eisoes am gryfderau a gwendidau canfyddedig hynny. Mae wythnos anghymesur yn cynnwys cyfuniad o ddyddiau hirach a byrrach fel arfer, ac yn galluogi ysgolion i droi cefn ar amserlennu sefydledig a newid y ffordd maent yn gweithredu ar gyfer staff a disgyblion yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r syniad o leihau nifer y dyddiau y mae disgyblion yn ei dreulio yn yr ysgol yn un newydd.

Fe'i gelwir hefyd yn 'wythnos ysgol bedwar diwrnod' ac mae ei gwreiddiau fel ymyrraeth brif ffrwd yn dyddio nôl tua 30 i 40 mlynedd, pan ddaeth yn amlwg fel ffordd o arbed arian yn UDA. Yn wir, mae cynigwyr yn dadlau y gall lleihau nifer y dyddiau mae disgyblion yn mynychu dosbarthiadau arwain at arbedion mewn costau trafnidiaeth, cyfleusterau a staff (Donis-Keller a Silvernail, 2009). Mae presenoldeb a recriwtio athrawon yn gymhellion sy'n cael eu nodi'n aml hefyd, er bod tystiolaeth yn awgrymu bod wythnosau ysgol pedwar diwrnod wedi creu heriau i deuluoedd sydd angen gofal plant, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig, ac wedi cael effaith negyddol ar ymgysylltiad disgyblion (Fager, 1997). Mae'r papur hwn yn ystyried y materion hyn a materion eraill ymhellach mewn cyd-destun cwbl Gymreig.

Yng Nghymru, mae'r syniad o wythnos ysgol anghymesur yn ffenomenon cymharol ddiweddar ac felly, mae'r ymchwil i'w heffaith yn parhau i fod yn anecdotaidd i raddau helaeth. Mae hyn yn rhannol oherwydd mai ychydig o ysgolion sydd wedi dewis cydgrynhoi eu hamser cyfarwyddol mewn ffordd mor ffurfiol. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o ysgolion yn defnyddio arferion eraill sy'n darparu cipolwg gwerthfawr ar y drafodaeth ynghylch strwythurau ysgol mwy sefydledig. Mae'r ffaith fod system addysg Cymru'n destun proses o newid systemig hir yn rheswm arall i gael gwell dealltwriaeth o ymarferoldeb yr wythnos ysgol anghymesur, a'i gwerth posibl ar gyfer y gymuned addysg ehangach. Mae'r rhyddid i arloesi a myfyrio'n gritigol ar arferion ysgol sydd wedi hen sefydlu yn nodwedd o 'Genhadaeth Genedlaethol' Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017), ac mae yna awydd i chwyldroi'r ffordd y mae plant yn cael eu haddysgu yn deillio o'r gwaith i ddiwygio cwricwlwm y wlad sy'n digwydd ar hyn o bryd (Donaldson, 2015).

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio profiadau dwy ysgol sy'n arloesi gydag wythnosau anghymesur yng Nghymru ac yn elwa ar ei phrofiad ymarferol o'r realiti o fabwysiadu trefniadau amserlennu newydd. Gyda'i gilydd, mae'n ystyried data gan 127 o staff ysgol, 140 o rieni, a 55 disgybl ac yn cyflwyno cyfuniad o'u dehongliadau o gryfderau a gwendidau dull o'r fath. Mae'n canolbwyntio ar weithredu ac effaith newid i wythnos bedwar diwrnod ac er na ellir cyffredinoli ei ganfyddiadau, maent yn cynnig cipolwg ar ddwy enghraifft ymarferol o drefniadau anghymesur yng nghyd-destun Cymru. Ar gais yr Academi Arweinyddiaeth, a gydariannodd yr ymchwil, mae'r papur yn talu sylw arbennig i'r effaith bosibl ar iechyd a lles meddyliol y staff, yn ogystal â'r amodau sy'n addas ar gyfer ffyrdd amgen o weithio.

# 2. Nodau a chwestiynau ymchwil

Comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi ac Adolygu Polisi Addysg (CEPRA) yn yr Athrofa: Institute of Education, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i archwilio gwerth gweithredu wythnos ysgol anghymesur. Er mwyn gwneud hyn roedd yn ceisio ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Beth yw'r amodau sydd eu hangen ar ysgol i newid i wythnos anghymesur?
- Sut y gall ysgolion baratoi ar gyfer wythnos anghymesur a gweithredu hynny'n llwyddiannus?
- I ba raddau mae'r wythnos anghymesur yn effeithio ar staff, disgyblion a rhieni?
- Sut mae'r wythnos anghymesur yn effeithio ar iechyd a lles meddyliol y staff?
- I ba raddau y gall newidiadau i rythm yr wythnos ysgol gefnogi gweithrediad y *Cwricwlwm newydd i Gymru?*

Bydd ffocws yr adroddiad ar yr wythnos ysgol anghymesur fel dewis amgen posibl yn lle strwythurau ysgol a threfniadau amserlennu mwy sefydledig yn ychwanegu at y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, a chyda system addysg Cymru yn cael ei ailwampio'n sylweddol ar hyn o bryd, bydd yn darparu safbwynt newydd ar y posibiliadau a gynigir gan ddulliau newydd. Felly, mae'r astudiaeth wedi'i chynllunio i gyfleu darlun mor gyfoethog â phosibl o ymarferoldeb gweithredu wythnos ysgol anghymesur gyda ffordd o hysbysu arweinwyr ysgolion, llunwyr polisïau, ymarferwyr a rhieni'n well am gryfderau a gwendidau'r trefniadau hyn. Bydd yr holl gwestiynau ymchwil yn cael eu hystyried yng nghyd-destun Cymru'n benodol, er y bydd yr astudiaeth yn rhoi ystyriaeth ofalu i brofiad gwledydd eraill sy'n defnyddio dulliau tebyg ar gyfer strwythurau ysgolion.

# Y cyd-destun Cymreig

Mae addysg yng Nghymru yn mynd trwy gyfnod o esblygu estynedig ac eang (Evans 2015; Dixon, 2016). O dan arweinyddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, bydd y newid yn parhau ar raddfa sylweddol dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf wrth i Gymru a Llywodraeth Cymru geisio cyflawni ei 'Chenhadaeth Genedlaethol' a rennir a'r nod cyfunol o godi safonau i bawb (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae agenda ddiwygio gynhwysfawr, a amlinellir yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2021, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (2017), yn adeiladu ar y cyhoeddiad *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015) a mabwysiadu ei argymhellion wedyn yn *Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes* (Llywodraeth Cymru, 2015).

*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* yw'r ddiweddaraf mewn cyfres hir o ddogfennau polisi strategol a gyhoeddwyd ers sefydlu Senedd Cymru ym 1999 ac mae'n seiliedig ar dri amcan craidd, sef: codi safonau; lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion; a darparu system addysg sy'n ffynhonnell o falchder cenedlaethol a hyder cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, 2017). Rhagwelir y bydd yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni drwy gynllunio a gweithredu cwricwlwm a threfniadau asesu trawsnewidiol llwyddiannus (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae datblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru yn sail i holl ddiwygiadau addysg Llywodraeth Cymru ac yn gofyn am gyfraniad gan bob lefel o fodel tair haen system addysg Cymru, fel yr amlinellir yn Niagram 1:

**Haen 1**

**Llywodraeth Cymru**

- Cynllunio a llunio polisïau – drwy gydweithio seiliedig ar dystiolaeth.
- Rheoli modelau atebolrwydd o fewn y broses ddemocrataidd.
- Ymgysylltu â phob haen a chefnogi'r gwaith o feithrin gallu er mwyn gwella'r system.

**Haen 2**

**Pedwar consortiwm rhanbarthol, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, byrddau arholi ac addysg uwch**

- Defnyddio eu gwybodaeth am ysgolion ac ymchwil i hwyluso a chefnogi'r broses o rannu arfer gorau a chydweithio i wella deilliannau dysgwyr, o fewn system ysgolion sy'n hunanwella.

**Haen 3**

**Ysgolion**

- Cydweithio i roi amrywiaeth o brofiadau i blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol er mwyn gwella eu dysgu a'u lles.

***Diagram 1: Model tair haen system addysg Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017, t. 10)***

Disgrifiwyd *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* fel conglfaen ymdrech gyfunol i godi safonau ac mae'n ystyried bod gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus yn dibynnu ar gysoni pedwar amcan galluogi (Llywodraeth Cymru, 2017). Datblygwyd y rhain ar y cyd â gweithwyr addysg proffesiynol ac maent yn cynnwys: datblygu proffesiwn addysg o safon uchel; arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau; ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles; a threfniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella (ibid). O fewn yr amcanion rhyng-gysylltiedig hyn mae yna amrywiaeth o gamau gweithredu sydd â'r nod o ddarparu system ysgolion well i Gymru a'i dysgwyr.

Mae cyhoeddiad arloesol yr Athro Graham Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus* yn darparu'r glasbrint ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru a gellir ei ystyried fel un o'r dogfennau sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer cefnogi darparu *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.* Yn ei adroddiad, mae Donaldson yn dadlau y bydd cyflwyno 'camau cynnydd' yn darparu sail fwy ystyrlon ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu. Mae'n hyrwyddo chwe Maes Dysgu a Phrofiad - celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg - fel themâu trawsgwricwlaidd uwchlaw'r holl ddysgu o dair oed i 16 oed. Yn ogystal, byddai tri 'cyfrifoldeb trawsgwricwlwm' - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol - yn faes i bob athro, waeth beth yw ei arbenigedd pwnc neu oedran (Donaldson, 2015).

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn mynnu bod plant a phobl ifanc yn datblygu fel: dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Donaldson, 2015). Yn y pum mlynedd ers ei gyhoeddi, mae strategaeth genedlaethol wedi'i defnyddio i ddatblygu cwricwlwm, addysgeg a threfniadau asesu newydd sy'n addas i'r 21ain Ganrif. Mae pawb sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu'r trefniadau newydd hyn – cymunedau, llunwyr polisïau, ymarferwyr ac ymchwilwyr – er ei fod yn cael ei arwain gan rwydwaith o Ysgolion Arloesi sy'n gyfrifol am nodi beth sy'n bwysig yn y cwricwlwm a'r ffordd orau o ddisgrifio a gweld cynnydd (Prifysgol Glasgow a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2018). Hyd yn ddiweddar, roedd Ysgolion Arloesi'r Cwricwlwm wedi bod yn gweithio mewn grwpiau cenedlaethol yn gysylltiedig â phob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, ac mae dull cydweithredol Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi wedi'i groesawu fel ffordd newydd a chadarnhaol o weithio (Evans, 2018). Yn wir, mae'r broses hon o gyd-adeiladu'n cyd-fynd â thystiolaeth sy'n awgrymu bod arferion cydweithredol yn symud yr ymgyrch ar gyfer newid i ffwrdd o'r canol i reng flaen ysgolion, gan helpu i sicrhau bod gwelliannau i'r system yn hunangynaliadwy (Barber et al, 2010).

Yn y bôn, mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn cynrychioli un o sawl cwricwlwm sy'n cael ei ddatblygu o amgylch y byd i *arwain* ymarfer addysgol, yn hytrach na threfn ragnodol i'w dilyn yn llythrennol (Drew a Priestley, 2016). Wrth reswm mae gan hyn oblygiadau i'r gweithlu proffesiynol ac mae'r weledigaeth a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn cyd-fynd â'r hyn a gyflwynir yn *Addysgu Athrawon Yfory* (Furlong, 2015). Ynddo, mae'r Athro John Furlong yn dadlau y bydd natur newidiol ysgolion yn yr 21ain Ganrif yn ei gwneud hi'n ofynnol i athrawon fod yn arbenigwyr ar addysgu rhai disgyblaethau *ac* mewn addysgu eu myfyrwyr i 'ddysgu sut i ddysgu' (ibid, t. 6). Mae ei awgrym bod Cymru angen 'math newydd o broffesiynoldeb ymysg ei hathrawon' (ibid, t. 7) yn cael ei rannu gan Donaldson a bydd gan hyn oblygiadau'n ddi-os ar gyfer y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol systemig (Llywodraeth Cymru, 2018) wrth symud ymlaen.

Mae'r agenda diwygio polisi yn cyfeirio at awydd am newid ac archwilio dulliau newydd ac arloesol o addysgu a dysgu yn system addysg Cymru. Dangosir hyn ymhellach drwy sefydlu comisiwn newydd i 'ail-greu addysg'. Sefydlwyd panel o bum arbenigwr sector, dan arweiniad yr Athro Mick Waters, yn arbennig i ymchwilio ac asesu sut mae addysg yn gweithio i ddisgyblion, eu teuluoedd, athrawon a staff cymorth yng Nghymru, ac i nodi'r themâu allweddol sydd angen eu hystyried ymhellach (Llywodraeth Cymru, 2019). Roedd y comisiwn ei hun yn un o sawl argymhelliad a oedd yn deillio o adolygiad llawer ehangach o system addysg Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018. Cynigodd *Addysgu: Proffesiwn Gwerthfawr* (Waters et al, 2018) ddrafftio 'Gweledigaeth ar gyfer 2030' a rennir a fyddai'n cynnig cynllun o bontio graddol i systemau ac arferion addysg sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Roedd yn galw ar y comisiwn newydd i ailystyried rhythm y flwyddyn ysgol, patrwm tymhorau a gwyliau, a siâp y diwrnod ysgol. Cynigiodd y canlynol fel cyfiawnhad:

> **Mae cymaint o arferion addysg yn dyddio o'r amser pan gyflwynwyd addysg i bawb, gydag ysgolion yn adlewyrchu llawer o agweddau ar fywyd gwaith pobl o'r cyfnod hwnnw. Mae arferion gwaith yn wahanol iawn heddiw, gyda gyrfaoedd, gwaith ar dasg, contractau tymor byr, gwaith shifft a dim oriau yn rhan o arferion llawer o deuluoedd. A fydd angen i ysgolion ailystyried eu ffyrdd traddodiadol o weithio i fod yn fwy ystyriol o deuluoedd? (Waters et al, 2018, t. 27)**

Roedd yr adroddiad yn dadlau y gallai fod yn syniad da i ysgolion ailedrych ar amserlenni, gwaith cartref, neu'r cydbwysedd rhwng gwersi a phrofiadau eraill, yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd a'i Feysydd Dysgu a Phrofiad. Byddai ystyried ffyrdd gorau o ddatblygu sgiliau athrawon ac eraill sy'n gweithio gyda phlant a'r ffordd orau o ofalu am eu lles yn cael ei gynnwys yn hyn. Anogwyd y comisiwn hefyd i ystyried ffurf a defnydd y rhai sy'n gweithio yn y system ysgolion yn y dyfodol a'r mathau o strwythurau gweithio y byddai eu hangen i gefnogi'r system addysg wedi'u hail-greu. Mae nifer o'r arferion hyn yn cael eu defnyddio eisoes wrth gwrs gan leiafrif o ysgolion, sy'n gwneud yr astudiaeth hon i brofiadau dwy ysgol o'r fath yn fwy perthnasol. Fel mae Donaldson ei hun yn nodi yn *Dyfodol Llwyddiannus* (2015, t. 11), 'mae'r ddadl o blaid newid sylfaenol yn un rymus'.

# 4. Adolygiad o lenyddiaeth

Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth addysgol yn ymwneud â'r wythnos anghymesur i ystyried modelau presennol a ddefnyddir yn fyd-eang. Mae'r adolygiad yn cynnwys llenyddiaeth academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid, a llenyddiaeth lwyd o safon uchel gan gyhoeddwyr anfasnachol. Yn yr achos hwn, mae llenyddiaeth lwyd yn cyfeirio'n benodol at lenyddiaeth a gynhyrchwyd gan wahanol lefelau o lywodraeth a sefydliadau addysg uchel eu parch sy'n gweithredu y tu allan i'r byd academaidd. Mae mwyafrif yr awduron wedi'u lleoli yn y DU ac Ewrop, ond mae awduron o'r Unol Daleithiau wedi'u cynnwys hefyd i sicrhau barn a phrofiad digon eang. O gymharu ag arferion addysgol cyfoes eraill, mae'r wythnos ysgol anghymesur yn faes sydd wedi denu ychydig iawn o sylw ym maes ymchwil addysgol. Ychydig iawn sydd wedi'i ysgrifennu am ddulliau amgen o drefnu rhythm y diwrnod ysgol yn rhyngwladol, ac mae erthyglau o safon a adolygwyd gan gymheiriaid sy'n canolbwyntio ar y maes hwn yn brin. Fodd bynnag, mae yna rai enghreifftiau y gellir eu defnyddio ar gyfer cyd-destun yr adroddiad hwn ac mae pob un yn darparu cipolwg defnyddiol ar yr her a'r cyfle posibl a geir drwy ymdrin â'r wythnos ysgol yn ofalus.

Daeth yr wythnos anghymesur i amlygrwydd gyntaf yn yr Unol Daleithiau yn ystod y 1970au, fel ffordd o leihau costau gwresogi a thrafnidiaeth cynyddol (Cummings, 2015). Mae ei gwreiddiau, fodd bynnag, yn deillio yn ôl ymhellach i Ddirwasgiad Mawr y 1930au, pan gyflwynwyd wythnos fyrrach i leddfu pwysau ariannol (Donis-Keller a Silvermail, 2009). Yn wir, mae'r symudiad i wythnos bedwar diwrnod, fel y'i gelwir yn yr Unol Daleithiau fel arfer, yn cael ei ysgogi'n aml gan yr angen i arbed arian (Anderson a Walker, 2015; Bitton, 2016; Cummings, 2015; Donis-Keller a Silvernail, 2009) ac yn 2009 cyflwynwyd 'Furlough Fridays' yn nhalaith Hawaii i wneud iawn am gyfyngiadau cyllidebol (Herring, 2010). Mewn rhai achosion mae arbedion wedi cynnwys troi gwres i lawr a diffodd cyfarpar trydanol i arbed ar gostau cyfleustodau (Fager, 1997). Mae arbedion eraill yn ymwneud â chostau staffio, ac ysgolion yn dibynnu llai ar gyflenwad athrawon yn fwyaf arbennig (Beesley ac Anderson, 2007).

Canfu adolygiad ymchwil gan y Northwest Regional Educational Laboratory i'r wythnos anghymesur yn yr Unol Daleithiau bod rhai ardaloedd wedi gweld gostyngiad mewn cyfraddau gadael yn gynnar, gwell presenoldeb ac agweddau mwy cadarnhaol at ysgol o ganlyniad i'w mabwysiadu (Fager, 1997). Fodd bynnag, mae newid i wythnos bedwar diwrnod wedi creu problemau hefyd gyda gofal plant, ymgysylltiad dysgwyr a chefnogaeth y gymuned (ibid). Yn Missouri, pasiwyd deddfwriaeth yn 2009 a oedd yn galluogi ysgolion i ddewis rhwng wythnos pedwar diwrnod ac wythnos bum niwrnod mwy traddodiadol. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros fabwysiadu'r calendr byrrach oedd recriwtio a chadw staff (Turner et al, 2019).

Canfu astudiaeth o amserlenni ysgol yn New Mexico, Colorado, Oregon ac ardal Ynysoedd y Môr Tawel bod yr wythnos bedwar diwrnod yn gweithio'n well mewn ardaloedd gwledig nag ardaloedd mwy trefol a bod 'addysgu clyfar' a gwneud gwell defnydd o amser wedi talu ar ei ganfed (Koki, 1992, t. 6). Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod yr wythnos bedwar diwrnod wedi cael ei ddefnyddio'n amlach mewn lleoliadau gwledig yn yr Unol Daleithiau, o ystyried yr heriau penodol y mae ysgolion yn eu hwynebu yn yr ardaloedd hynny. Er enghraifft, recriwtio, cadw a hyfforddi athrawon o safon uchel yw'r tair her a nodir amlaf ar gyfer ysgolion gwledig (Monk, 2007; Parsley a Barton, 2015), sy'n troi at arferion mwy arloesol o ganlyniad (Turner et al, 2019). Yn nhalaith Idaho, mae nifer cynyddol o ardaloedd ysgolion yn newid i wythnos bedwar diwrnod i arbed arian ar gostau cludiant, gwresogi, porthorion a chlercod. Fel arfer, maent yn gwneud hyn drwy gynnal ysgol o ddydd Llun i ddydd Iau bob wythnos, gyda rhwng 30-90 munud yn cael ei ychwanegu at bob dydd er mwyn cael dydd Gwener i ffwrdd ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, dysgu ar-lein gartref a gwaith prosiect annibynnol (Hill a Heyward, 2015). Nid oes unrhyw gostau sylweddol i athrawon, sy'n aros ar yr un cyflog ac sydd â diwrnod penodol bob wythnos i gydweithio, cynllunio a gwneud cyrsiau cyfoethogi personol (ibid).

Yn gyffredinol, mae'r pumed diwrnod 'ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd amrywiol. Mewn rhai achosion, mae'r diwrnod yn rhoi cyfle i athrawon gwblhau datblygiad proffesiynol wedi'i gynllunio ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol (Wilmoth, 1995). Mewn achosion eraill, mae ysgolion yn cau'n gyfan gwbl i roi cyfle i staff a disgyblion wneud fel y gwelant yn dda. Mewn ardaloedd gwledig, lle mae meddygfeydd a chyfleusterau meddygol yn fwy anghysbell, mae diwrnod heb addysgu'n rhoi mwy o amser i'r gymuned ysgol drefnu apwyntiadau ac ymweld â'u gweithiwr iechyd (Dam, 2006). Yn ôl Donis-Keller a Silvernail (2009), mae effaith yr wythnos bedwar diwrnod yn cael ei hystyried mewn pedwar maes yn gyffredinol: arbedion ariannol; cyflawniad myfyrwyr; canlyniadau myfyrwyr ac athrawon eraill' a boddhad rhanddeiliaid. Caiff llwyddiant neu fethiant ei asesu drwy broses hunanwerthuso fel arfer, er bod yr awduron yn nodi nad yw symud i wythnos bedwar diwrnod heb ei drafferthion fel arfer a bod angen i ysgolion ymchwilio i'r arfer, edrych ar fodelau presennol, a phwyso a mesur y manteision a'r anfanteision cyn gweithredu (ibid). Yn yr Unol Daleithiau, rheoli adwaith y gymuned a rhieni i'r wythnos bedwar diwrnod yw'r anhawster mwyaf a nodwyd gan ardaloedd sy'n mabwysiadu'r trefniadau newydd (Beesley ac Anderson, 2007), gyda phryderon yn amrywio o broblemau gyda gofal plant (Keen, 2007) i'r syniad o golli amser addysgu (Harp, 1995).

Gellir dadlau mai'r Alban yw cefnogwr cryfaf yr wythnos anghymesur yn y Deyrnas Unedig ac o ystyried ei agosrwydd a'i debygrwydd cryfach i system addysg Cymru, mae'n cynnig cyd-destun mwy priodol i Gymru ddysgu ohono. Er nad yw'r Alban wedi mabwysiadu wythnos ysgol fyrrach yn genedlaethol, mae nifer o awdurdodau lleol y wlad wedi treialu gwahanol ddulliau o ddarparu addysg dros y tri degawd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys Caeredin, sydd wedi rhoi'r cyfle i ysgolion

drefnu oriau addysgu statudol mewn pedwar diwrnod a hanner ers nifer o flynyddoedd (Cyngor Dinas Caeredin, 2004). Mae nifer o ysgolion wedi dewis cau'n gynt (amser cinio) ar ddydd Mercher neu ddydd Gwener i roi mwy o amser hyfforddi a datblygu i athrawon. Canfu adolygiad o drefniadau newydd a gynhaliwyd yn 2003, er bod cyfleoedd datblygu staff ychwanegol wedi'u credu drwy fabwysiadu'r wythnos anghymesur, bod diffyg cysondeb ar draws y ddinas wedi cyfyngu ar y defnydd mwyaf effeithiol o'r amser hwn (Cyngor Dinas Caeredin, 2004).

Yn Aberdeen, cyflwynodd cyngor y ddinas gynigion i ad-drefnu'r wythnos ysgol o bump i bedwar diwrnod a hanner oherwydd ei ddymuniad i archwilio lefelau cyllido addysg (Cyngor Dinas Aberdeen, 2008). Cyflwynodd fodel posibl yn seiliedig ar brofiad Caeredin a rhestrodd y canlynol fel manteision posibl (ibid):

- Amser datblygu proffesiynol strwythuredig;
- Cyfle cyfartal gwell i staff fynychu cyrsiau;
- Llai o ddibyniaeth ar athrawon cyflenwi (gan arwain at arbed costau sylweddol);
- Mwy o gyfle i gynnal gweithgareddau rhyngadrannol;
- Cyfle i drefnu gweithgareddau allgyrsiol cydweithredol;
- Cyfraddau absenoldeb staff is.

Ymysg anfanteision posibl fe nodwyd:

- Trefniadau gofal plant;
- Byddai gofyn i wirfoddolwyr gefnogi gweithgareddau hanner diwrnod;
- Ni fyddai gweithgareddau hanner diwrnod yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion;
- Amheuon staff ysgol;
- Newid amodau gwaith cytundebol;
- Pwysau ar leoliadau cyn-ysgol i aros ar agor drwy'r amser.

Ers 2016, mae'r mwyafrif llethol o awdurdodau lleol yr Alban wedi bod yn gyfrifol am ysgolion sy'n defnyddio rhyw fath o wythnos anghymesur (Cyngor Moray, 2016). Yn yr Ucheldiroedd, mae'r cyngor wedi ei gwneud hi'n orfodol i bob un o'i 29 ysgol uwchradd symud i amserlen sydd wedi'u had-drefnu er mwyn ei gwneud hi'n haws i ysgolion gydweithio, yn enwedig ar gyfer e-ddysgu (Partneriaeth Cyngor Rhieni'r Ucheldiroedd, 2017). Nid oes unrhyw reidrwydd ar ysgolion cynradd i fabwysiadu wythnos anghymesur ar hyn o bryd, er bod rhai wedi dewis gwneud beth bynnag.

Symudodd ysgolion yng Ngororau'r Alban i wythnos anghymesur yn 2014, ar y sail y byddai gorffen yn gynt ar ddydd Gwener yn lleihau costau staff ac yn cynyddu cyfleoedd am addysgu a rennir (BBC Scotland, 2014). Yn ei ddogfen ganllaw, dywedodd Scottish Borders Council (2013, t. 2) y byddai symud i wythnos anghymesur yn galluogi ysgolion uwchradd i gysoni amserlenni ar draws y naw ysgol, gan alluogi ysgolion i gynllunio darpariaeth y cwricwlwm mewn ffyrdd gwahanol a mwy effeithlon. Croesawodd y cyfle cynyddol i ysgolion gydweithio i greu cyrsiau priodol ar gyfer e-ddysgu ac addysgu a rennir ar draws ysgolion. Yr un mor ddarbwyllol oedd yr awgrym gan benaethiaid cynradd ac uwchradd y byddai wythnos anghymesur yn galluogi mwy o gydweithio 3-18 oed a chyd-gynllunio ar gyfer agweddau allweddol cwricwlwm cenedlaethol newydd yr Alban (ibid, t. 3). Cymeradwywyd cynnig y cyngor ac fe ddechreuodd holl ysgolion cynradd ac uwchradd y rhanbarth gau amser cinio dydd Gwener. I wneud iawn am hyn, mae'r ysgolion yn dechrau'n gynt ac yn gorffen yn hwyrach yn ystod pedwar diwrnod cyntaf yr wythnos. Yn debyg i Gyngor Dinas Aberdeen, rhestrodd yr awdurdod gyfleoedd i gydweithio, pontio haws i ddisgyblion a mwy o gydweithio fel manteision posibl, gan nodi'r heriau a oedd yn gysylltiedig â rheoli newid a goresgyn pryderon rhieni.

Fodd bynnag, mae yna ystyriaethau eraill sy'n rhaid eu hystyried cyn symud i drefniadau anghymesur na ellir eu mesur neu roi sylw iddynt yn hawdd yn ystod ymarferion cwmpasu cychwynnol. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw addasu amserlenni ysgolion ynddo'i hun yn sicr o gael effaith gadarnhaol ar ysgol a'i chymuned ac er bod yna botensial i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol neu weithgareddau cyfoethogi, mae cyflwyno strwythur newydd yn annhebygol o gael yr effaith ddymunol oni bai bod arweinwyr a diwylliant yr ysgol yn cefnogi'r newid a'r amcan cyffredinol (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2016). Ymhellach, cydnabyddir bod strwythurau presennol yn gweithio'n well i rai nag eraill, ac nid pawb a fyddai'n elwa o ddulliau gwahanol. Mae Heyward (2017, t. 1) yn rhybuddio:

**Mae symud i amserlen pedwar diwrnod yn ymyriad llawer mwy cymhleth na newid llwybrau bysiau... Pan fydd cymuned yn symud ei hamserlen ysgol, mae'n effeithio ar rieni, athrawon, staff dosbarthedig, a busnesau lleol. Mae'r newid amserlen – gyda diwrnodau ysgol hirach a phenwythnosau estynedig – yn effeithio ar fyfyrwyr yn bennaf oll, ac mae gwahanol fyfyrwyr yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd.**

Bydd pa mor hawdd y mae athrawon, rhieni a disgyblion yn gallu goresgyn diffyg egni a datblygu hyder i droi cefn ar arferion sefydledig ymysg y themâu a ystyrir yn ystod y gwaith ymchwil hwn.

# 5. COVID-19

Ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r llenyddiaeth sydd ar gael, mae'n briodol cydnabod ar y pwynt hwn y sefyllfa ddigynsail y mae systemau addysg y byd ynddi ar hyn o bryd. Mae pandemig COVID-19 wedi tarfu ar y dulliau addysg 'traddodiadol', ac arweiniodd 'cyfnod clo' drwy'r DU gyfan ym mis Mawrth 2020 at gau pob ysgol a ariennir gan arian cyhoeddus ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb llawn amser. Mae'r newid i egwyddorion sylfaenol ein cymdeithas, fel y rhai sy'n gysylltiedig ag addysg, wedi bod yn ddwys. Yn wir, comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn ymhell cyn y digwyddiadau dramatig hyn, sydd â goblygiadau ar gyfer y canfyddiadau a gyflwynir.

Mae'r ffaith bod heriau COVID-19 yn digwydd yn syth wedi gorfodi gweinidogion addysg a sefydliadau addysgol i weithredu ymatebion creadigol yn gyflym i sicrhau bod dysgu'n parhau, waeth ble fo'r lleoliad (OECD, 2020). Mae llawer o fyfyrwyr ym mhob cwr o'r byd, yn cynnwys y rhai yng Nghymru a'r DU, wedi symud i ddysgu o bell yn eu cartrefi, ac yn cymryd rhan mewn dulliau cymysg o ddarparu boed yn gydamseredig neu'n anghydamseredig. Cafodd asesiadau diwedd blwyddyn allanol eu canslo a'u disodli gan fecanwaith dros dro ar gyfer dyfarnu cymwysterau, yn seiliedig ar asesiad athrawon a safoni lleol (Cymwysterau Cymru, 2020). Mae disgyblion wedi colli llawer o addysg ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion mwy cefnog fod wedi lledu cymaint â 75% ers dechrau'r pandemig (EEF, 2020). Wrth i sefyllfa COVID-19 wella, mae gwledydd fel Cymru wedi ceisio ailagor ysgolion i niferoedd mwy o ddisgyblion yn unol â chyngor meddygol (BBC Wales, 2020). Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd modelau dysgu cymysg yn debygol o fod yn fwy cyffredin mewn systemau addysg yn y tymor byr i'r tymor canolig o leiaf, ac felly mae llunwyr polisïau'n parhau i edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu addysg i ddisgyblion sy'n croesi ffiniau safleoedd ysgol ffisegol drwy ddefnyddio technoleg.

Yng Nghymru, roedd canllawiau gweithredol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tymor yr hydref 2020 yn nodi na ellir cael un dull darparu sy'n addas i bawb ac y bydd gan bob lleoliad ysgol ei heriau lleol ei hun (Llywodraeth Cymru, 2020a). Yn wir, mae ei argymhelliad y dylai ysgolion ystyried gwasgaru amseroedd cychwyn a gorffen, heb leihau'r swm o amser addysgu cyffredinol sydd ar gael i ddisgyblion, yn gyfle unigryw i herio arferion presennol ac ystyried dewisiadau dichonadwy eraill.

**Mae'n bosibl y bydd y cydbwysedd rhwng dysgu mewn ysgolion a lleoliadau a'r amser sy'n cael ei dreulio'n dysgu mewn mannau eraill yn newid ar adegau gwahanol er mwyn ymateb i'r pandemig. Mae'r her hon yn golygu bod angen i ysgolion addasu sut maent yn cynllunio'r cwricwlwm er mwyn gallu bod yn hyblyg ac ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. (Llywodraeth Cymru, 2020b, t. 2)**

Mae'r heriau a ddaeth yn sgil y pandemig wedi bod yn helaeth, ac ar raddfa na fyddai neb wedi gallu ei dychmygu ychydig fisoedd yn ôl. Fodd bynnag o gyfnod sydd wedi'i nodweddu gan ansicrwydd a dyfalu, mae darlun o fwy o sefydlogrwydd wedi ymddangos, ac ymdeimlad bod yr holl randdeiliad allweddol ym myd addysg yn dod i arfer yn gynyddol â ffyrdd newydd o weithio. Mae arferion newydd yn cael eu mabwysiadu, a strwythurau dros dro yn cael eu cyflwyno oherwydd rheidrwydd ac yn esblygu yn rhywbeth mwy cynaliadwy a all bara. Bydd dysgu gwersi'r profiadau hyn yn hanfodol os ydym i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil amhariad COVID-19.

**Wrth i ni edrych i'r flwyddyn ysgol nesaf a thu hwnt, bydd arweinwyr systemau, addysgwyr, cyfadrannau, myfyrwyr a theuluoedd yn cymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy gydol y broses, ac yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a llunio dyfodol addysg.
(Fullan et al, 2020, t.2)**

Mae ymateb systemau addysg i argyfwng COVID-19 wedi profi y gall myfyrwyr ddysgu a dangos yr hyn maent wedi'i ddysgu heb frics a morter ac amseroedd cloch (ibid). Bydd yn ddiddorol gweld i ba raddau y mae arweinwyr systemau ledled y byd yn barod i fanteisio ar y cyfle i wneud rhywbeth cwbl radical o ganlyniad. Yn wir, y cwestiwn allweddol yn ôl Fullan a chydweithwyr (2020) yw a yw manteisio ar y cyfle i greu system ddysgu newydd mwy pwerus yn apelio mwy na llithro nôl i'r sefyllfa fel ag yr oedd hi. Mae dulliau newydd o drefnu'r wythnos ysgol, ac amserlenni ysgol mwy traddodiadol, yn un cyfle o'r fath.

# 6. Methodoleg

Mae'r astudiaeth hon yn deillio o ontoleg adeileddol, gan ei fod yn credu bod unigolion yn creu sawl realiti, ac wedi'i greu gan ddefnyddio patrwm deongliadol sy'n dibynnu ar brofiadau gwrthrychol unigolion i ddatblygu ystyr (Arthur et al, 2012). Yn wir, mae ei nodau ymchwil yn ddeongliadol eu natur eu hunain, o ystyried bod ganddynt ddiddordeb mewn creu cysylltiadau rhwng beth wnaeth arweinwyr ysgolion a staff er mwyn gweithredu wythnos anghymesur, a'u camau gweithredu/ymddygiad canlyniadol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio profiad dwy ysgol, a samplwyd yn fwriadol ac sy'n gweithredu fel astudiaethau achos. Roedd y dull astudiaeth achos yn briodol gan fod yr amodau cyd-destunol a 'lleoliad byd go iawn' ysgolion gweithredol o ddiddordeb arbennig i'r gwaith ymchwil hwn (Yin, 2014, t. 76). Dewiswyd yr ysgolion eu hunain gan iddynt fabwysiadu'r wythnos anghymesur yn gynnar, a'u bod wedi gallu cofnodi'r newidiadau sydd wedi digwydd mewn sawl blwyddyn ysgol. Defnyddiwyd dull cymysg o gasglu data i lywio pob astudiaeth achos, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- Cyfweliadau lled-strwythuredig gydag arweinwyr ysgol yn:
    - Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Taf;
    - Ysgol Gymunedol Doc Penfro, Sir Benfro.
- Arolygon ar-lein (Qualtrics) o staff, disgyblion a rhieni'r ddwy ysgol.

Cysylltwyd ag arweinwyr y ddwy ysgol i sicrhau cyfranogiad cyn y casgliad cyntaf o ddata sylfaenol, a defnyddiwyd sawl dull o gasglu data er mwyn cefnogi triongliant a sicrhau dilysrwydd yr astudiaeth (Denzin a Lincoln, 2011). Dewiswyd cyfweliadau ac arolygon i sicrhau portread mor gyfoethog a gonest â phosibl o safbwyntiau cyfranogwyr, a chan mai dyma'r dulliau ymchwil mwyaf dibynadwy a ddefnyddir mewn gwyddorau cymdeithasol (Taylor, 2005). Cytunodd yr arweinwyr ysgol i gymryd rhan yn yr astudiaeth yn wirfoddol a chynhaliwyd cyfweliadau ar adeg a dyddiad a oedd yn gyfleus iddyn nhw.

Penderfynwyd ar gwestiynau cyfweliad safonol ymlaen llaw a glynwyd atynt yn gyson yn y ddwy sesiwn (h.y. roedd gofyn i gyfranogwyr ateb yr un cwestiynau). Roedd y cwestiynau'n benagored ac yn galluogi i syniadau newydd gael eu cydnabod a'u nodi yn ystod y broses gyfweld. Datblygodd cwestiynau ategol yn naturiol wrth i sgyrsiau ddatblygu ac fe'u defnyddiwyd i ddeall profiadau pobl eraill a'r ystyr y maen nhw'n ei roi i'r profiad yn well (Seidman, 1991, t. 3). Roedd y cyfweliadau'n para rhwng 45 a 60 munud a chawsant eu recordio gan ddefnyddio'r mecanwaith recordio mewnol ar Microsoft Teams, y platfform a ddewiswyd i gynnal y broses gyfweld, er mwyn casglu data mwy effeithiol a chefnogi trawsgrifio. Drwy'r nodiadau maes a'r dyfyniadau o'r trawsgrifiad llwyddwyd i gofnodi themâu allweddol a safbwyntiau a oedd yn ymddangos yn gyflym, ac roedd hyn yn helpu i ddiwallu anghenion amserlen fer. Defnyddiwyd enghreifftiau a'u dyfynnu fel yn briodol. O ystyried natur cyfweliadau lled-strwythruedig a chyfyngiadau cymryd nodiadau maes, mae'n rhaid cydnabod rhywfaint o wrthrychedd a dehongliad personol o'r canfyddiadau. Fodd bynnag, cafodd hyn ei liniaru drwy fabwysiadu dadansoddiad thematig syml, a ddefnyddiwyd i nodi patrymau a thueddiadau sy'n datblygu, fel y maent yn ymddangos yn yr adroddiad.

Cafodd yr arolygon ar-lein o staff, disgyblion a rhieni yn y ddwy ysgol eu cynnal trwy ddefnyddio Qualtrics, hoff blatfform ar-lein y brifysgol. Dosbarthwyd yr arolygon yn ôl disgresiwn yr arweinwyr ysgol, er mwyn mesur dealltwriaeth mor llawn o'r wythnos anghymesur o amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol, ac roedd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau caeedig a phenagored i gael amrywiaeth lawnach o ymatebion. Defnyddiwyd arolygon gwahanol ar gyfer pob grŵp o gyfranogwyr (h.y. un ar gyfer staff, un ar gyfer disgyblion ac un arall ar gyfer rhieni), gyda chwestiynau'n ymwneud â diddordebau a nodweddion penodol yr ymatebwyr. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu profiad ac roedd cyfres o gwestiynau'n ymwneud â'r wythnos ysgol anghymesur a'i gweithrediad gan eu hysgol. Dosbarthwyd yr arolygon rhwng mis Mehefin a mis Medi 2020 ac fe'u cynlluniwyd i'w cwblhau mewn 5-15 munud, yn dibynnu ar yr ymatebydd.

Cwblhawyd yr arolygon yn ddienw drwy ddolen gwe ar-lein, a anfonwyd mewn e-bost, ac nid oes perygl y bydd modd adnabod yr ymatebwyr, gan na ofynnwyd am wybodaeth a allai eu hadnabod. Roedd taflen wybodaeth yr arolwg a roddwyd i'r cyfranogwyr cyn cwblhau'r arolwg yn datgan yn glir bod ganddynt hawl i dynnu allan o'r astudiaeth ar unrhyw adeg. *Fe fydd* modd adnabod arweinwyr ysgol a gymerodd ran mewn cyfweliadau, a'u hysgolion, ond fe ddywedwyd hyn yn glir wrthynt o'r dechrau. Cafodd arolygon o sampl o rieni a disgyblion o'r ddwy ysgol eu hoedi o fis Mehefin i fis Awst/Medi 2020, yn seiliedig ar argymhelliad arweinwyr ysgol ac ymchwilwyr a oedd yn ei hystyried hi'n amhriodol i gynnwys y rhanddeiliaid hyn yn gynharach yn y broses gasglu data, o ystyried y sensitifrwydd a oedd yn gysylltiedig â'r sefyllfa a oedd yn datblygu gyda COVID-19 a blaenoriaethau cysylltiedig.

Caiff prif ddata a gasglwyd o'r cyfweliadau lled-strwythuredig ac arolygon ar-lein ei gyflwyno yn y tudalennau canlynol, gan ddefnyddio dadansoddiad thematig (yn cynnwys proses godio ac adolygu) i ddarparu prif ganfyddiadau a chasgliadau. Mae cwestiynau'r cyfweliad i'w gweld yn yr Atodiad.

# 7. Ystyriaethau moesegol

Cymerwyd gofal i sicrhau bod y gwaith ymchwil yn dilyn canllawiau moesegol BERA (2018) ar gyfer ymchwil addysgol. Yn yr un modd, cynhaliwyd yr astudiaeth yn unol â Chod Ymarfer Moeseg Ymchwil ac Uniondeb a Pholisi Rheoli Data Ymchwil Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan bwyllgor moeseg addysg y brifysgol cyn dechrau'r ymchwil. Yn ogystal â'r egwyddorion cyffredinol hyn, rhoddwyd ystyriaeth i nifer o faterion moesegol a oedd yn benodol i'r astudiaeth hon. Roedd un o'r rhai mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag anhysbysrwydd cyfranogwyr yr arolwg, a sicrhau na ellir adnabod unrhyw aelod o staff, disgybl na rhiant ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwil. I liniaru'r risg, ni ofynnwyd am fanylion cyd-destunol a chafodd unrhyw wybodaeth a allai fod wedi'i defnyddio i'w hadnabod ei hepgor.

Cafodd hawl cyfranogwyr i dynnu allan ar unrhyw adeg, heb orfod esbonio, ei gyfleu'n glir yn ysgrifenedig ac yn llafar wrth arweinwyr ysgol cyn cynnal yr astudiaeth. Felly, roedd arweinwyr y ddwy ysgol yn deall y broses yr oeddynt yn cymryd rhan ynddi a nodau'r ymchwil. Dywedwyd wrthynt y byddai'r cyfweliadau'n cael eu trawsgrifio ac y byddai'r holl recordiadau o'r hyn a ddywedwyd (ar lafar ac yn ysgrifenedig) yn cael ei storio'n ddiogel, ac ar gael i'r ymchwilydd yn unig. Esboniwyd y byddai darnau o'r trawsgrifiad yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad ymchwil, ac y byddai manylion adnabod cyfranogwyr yn cael eu cynnwys. Rhoddodd arweinwyr y ddwy ysgol ganiatâd ysgrifenedig i gymryd rhan yn yr astudiaeth a gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod data'n cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno mewn modd teg a rhesymol.

# Canfyddiadau

Er mwyn gallu cyfeirio'n hawdd mae canfyddiadau pob astudiaeth achos wedi'u cyflwyno yn eu trefn. Cynigir tystiolaeth o'r cyfweliadau lled-strwythuredig i ddechrau, yna canfyddiadau sy'n deillio o arolygon ar-lein staff, disgyblion a rhieni pob ysgol.

# 8.1 Astudiaeth achos: Ysgol Gymunedol Doc Penfro

Mae Ysgol Gymunedol Doc Penfro yn ysgol gynradd fawr o 720 o ddisgyblion yn Sir Benfro. Mae gan yr ysgol 30 o staff addysgu a 70 o staff cymorth, ac mae tua 31% o'i disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd llawer uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Yn adroddiad arolygu diwethaf Estyn, a gyhoeddwyd yn 2017, cafodd perfformiad cyfredol yr ysgol radd 'da' a'i ragolygon ar gyfer gwella radd 'rhagorol'.

Mabwysiadodd Ysgol Gymunedol Doc Penfro wythnos anghymesur ym Medi 2018 ar ôl proses ymgynghori ysgrifenedig ac ar-lein yn cynnwys staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ysgol ehangach. Cyflwynwyd cynnig i ymestyn y diwrnod ysgol 15 munud yn y bore a 10 munud yn y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau i helpu i ryddhau amser ar ddydd Gwener i'r staff i ddechrau, yna i randdeiliaid allweddol eraill. Awgrymodd adborth gan rieni nad oedd gofyn i ddisgyblion fynychu'r ysgol yn gynt yn ddymunol, er bod yna gonsensws cyffredinol y byddai amser gorffen hwyrach yn gweithio. O ganlyniad, penderfynodd yr ysgol ymestyn ei ddiwrnod ysgol rheolaidd 10 munud i bob grŵp blwyddyn, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a lleihau amser egwyl o bum munud er mwyn gallu cael dydd Gwener byrrach. Mae'r holl ddisgyblion nawr yn dechrau'r ysgol am 9am, ond mae gwahanol grwpiau blwyddyn yn gorffen ar adegau gwahanol, rhwng 3pm-3.10pm. Mae rhieni'n gallu casglu eu plant am 12.15pm ar ddydd Gwener, neu 12.45pm os yw eu plentyn yn aros i ginio (er bod yna hyblygrwydd i'r rhai sydd am gasglu eu plant yn hwyrach). Mae hyn wedi rhyddhau amser ar brynhawn Gwener ar gyfer dysgu proffesiynol y staff neu sesiynau lles, sy'n cael eu hamserlennu bob yn ail wythnos yn fras. Mae hyn yn golygu bod staff naill ai yn yr ysgol yn gwneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dysgu proffesiynol, neu y tu allan i'r ysgol yn mwynhau eu hamser hamdden eu hunain ar brynhawn Gwener. Mae disgyblion sy'n gwrthod y cyfle i adael yn gynnar ac sy'n aros yn yr ysgol tan 3pm ar ddydd Gwener yn derbyn gofal gan gynorthwywyr cymorth dysgu'r ysgol, sydd â'u rota pythefnos eu hunain. Mae'r cynorthwywyr sydd yn yr ysgol ar unrhyw ddydd Gwener penodol yn rhannu eu hamser rhwng cefnogi plant a'u dysgu proffesiynol eu hunain, tra bod y gweddill yn gadael yr ysgol yn gynnar ar gyfer eu sesiwn lesiant. Mae yna newid wythnosol ac mae staff yn cael blwyddyn o rybudd o leiaf o'r amserlen sydd i ddod.

Mae'r ddwy awr ychwanegol (1pm-3pm, bob yn ail ddydd Gwener) sydd ar gael o ganlyniad i'r ad-drefnu wedi galluogi uwch dîm arwain yr ysgol i dreblu'r amser hyfforddi sydd ar gael i staff yn ystod y flwyddyn. Mae amserlen y staff yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, yn cynnwys seminarau ar hyfforddi a mentora, amser pwrpasol ar gyfer ymchwil weithredu, addysgu ar sail tystiolaeth ac ymwybyddiaeth ofalgar. Defnyddiwyd prynhawniau Gwener i gyflwyno staff i ofynion y cwricwlwm cenedlaethol newydd hefyd.

### a) Prif ganfyddiadau cyfweliad: Arweinydd yr ysgol

Cafodd pennaeth Ysgol Gymunedol Doc Penfro, Michele Thomas, ei phenodi ym mis Ebrill 2010. Cytunodd i gymryd rhan mewn cyfweliad lled-strwythuredig ar-lein a oedd tua 60 munud o hyd ac a gynlluniwyd i gael ei phrofiadau a'i barn ar newid i wythnos ysgol anghymesur. Cynhaliwyd y cyfweliad ym mis Ebrill 2020 drwy Microsoft Teams. Cafwyd llawer o ddata ansoddol o'r cyfweliadau ac mae'r cwestiynau a holwyd wedi'u rhestru yn yr Atodiad. Cyflwynir canlyniadau'r cyfweliadau ar ffurf ysgrifenedig, o dan gyfres o benawdau thematig i allu cyfeirio atynt yn hawdd. Defnyddiwyd dyfyniadau uniongyrchol i ddangos pwyntiau penodol ac roedd Mrs Thomas yn ymwybodol y byddai ei hymatebion yn cael eu darparu i'r cyhoedd a'u priodoli iddi hi.

### Cymhelliant

Roedd uwch dîm arwain yr ysgol yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r amser cyfyngedig oedd gan staff i ystyried eu hymarfer a'u datblygiad proffesiynol eu hunain, yn enwedig yng nghyd-destun cwricwlwm cenedlaethol newydd Cymru. Edrychodd yr ysgol ar ysgolion a oedd yn gweithredu wythnos ysgol anghymesur ym Midlothian, yr Alban, am ysbrydoliaeth ac roedd y pennaeth wedi manteisio ar ei phrofiad o addysg yn Ontario, Canada, yn dilyn ymweliad astudio. Dywedodd Mrs Thomas fod yna ddiffyg siomedig o ran tystiolaeth i'w defnyddio er ei bod hi'n awyddus i archwilio'r posibiliadau a oedd yn deillio o weithredu wythnos anghymesur. Dywedodd mai ei phrif gymhelliant dros ailddiffinio'r diwrnod ysgol oedd gwella cynnig dysgu proffesiynol yr ysgol, er bod pwyslais ar iechyd a lles meddyliol yn genedlaethol hefyd yn ffactor pwysig a rhywbeth yr oedd hi'n awyddus i roi mwy o sylw iddo.

**‘Ro’n i am barhau i godi safonau addysgu a dysgu yn yr ysgol, ac mae datblygiad proffesiynol yn rhan o’r broses honno’n amlwg. Os nad ydych chi’n datblygu’ch athrawon, sut ydych chi’n mynd i ddatblygu’ch plant?’**

Roedd y pennaeth yn awyddus iawn i’r broses o gyflwyno wythnos anghymesur fod yn ‘niwtral o ran costau’, ac na fyddai’n llesteirio’r ysgol yn ariannol mewn unrhyw ffordd. I Mrs Thomas, holl bwrpas y trefniadau newydd oedd neilltuo amser i uwchsgilio ac nid oedd unrhyw reidrwydd ariannol.

## Lles a datblygiad staff

Dywedodd Mrs Thomas fod staff yn Noc Penfro wedi ymateb yn gadarnhaol i brynhawn dydd Gwener i ffwrdd bob pythefnos, ac wedi mwynhau cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwahanol na fyddent wedi gallu eu gwneud fel arfer. Mae’r ysgol wedi adrodd bod morâl y staff wedi gwella (drwy arolygon staff mewnol) ac, yn gyffredinol, mae absenoldeb athrawon o’r ysgol yn isel. Dywedodd Mrs Thomas fod y staff wedi mwynhau treulio mwy o amser gyda’u plant eu hunain, penwythnosau hir i ffwrdd gyda’r teulu, ac amser tawelach mewn mannau prydferth ac atyniadau i ymwelwyr yn lleol. Yn wir, dywedodd fod rhai o’r staff wedi adrodd bod yr ysgol, fel ‘ysgol arloesi’ sy’n gyfrifol am ddatblygu’r cwricwlwm newydd yn gynnar, wedi bod yn rhoi’r hyn yr oedd yn ei bregethu ar waith o ran lles y staff a’u datblygiad proffesiynol. Ar ddyddiau Gwener lles, mae staff yn cael eu hannog i ‘stopio gweithio ac ymlacio’, yn ôl Mrs Thomas.

**‘Fe wnaethon ni lawer o’r peth ar y dechrau gan ei fod mor ddieithr i ni… cael gadael ysgol am brynhawn. Felly roedden ni’n annog pobl i wneud rhywbeth na fydden nhw’n gallu ei wneud fel arfer. Roedd rhai pobl yn mynd am dro ac roedden nhw’n teimlo’n euog, ddim am gael eu gweld gan neb gan eu bod yn teimlo y dylen nhw fod yn yr ysgol. Aeth rhai pobl ar ddêt gyda’u partner a chael cinio; fe wnaeth un aelod o’r uwch dîm arwain briodi ar brynhawn Gwener! Mae rhai staff yn mynd i gasglu eu plant o’u hysgolion ar ddydd Gwener – fel athro, dydych chi byth yn cael cyfle i weld eich plentyn yn cael ei ollwng yn yr ysgol a’i gasglu, felly mae hynny’n braf iawn.’**

Dywedodd Mrs Thomas fod ei staff wedi mwynhau cael amser ychwanegol i ystyried eu datblygiad eu hunain, a’u bod wedi sylwi ar fuddsoddiad yr ysgol mewn dysgu proffesiynol. Mae rhoi’r cyfle i athrawon *a* staff cymorth uwchsgilio wedi rhoi boddhad mawr, meddai, ac wedi gwneud i holl staff yr ysgol i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae’r holl athrawon yn cynnal eu hymholiadau proffesiynol eu hunain, ac yn defnyddio amser dysgu proffesiynol wedi’i neilltuo i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae staff a disgyblion wedi elwa mewn ffyrdd eraill hefyd.

Mae neilltuo amser ar ddiwedd yr wythnos wedi galluogi staff i gyfarfod yn fwy rheolaidd mewn cymunedau dysgu proffesiynol ac i drafod datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn unol â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol newydd. Cynt roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos waith, ond nawr maent yn cael eu cynnal ar brynhawn Gwener, sy’n golygu bod staff addysgu’n gallu aros yn eu dosbarthiadau. Mae Mrs Thomas yn hyderus bod yr wythnos anghymesur wedi lleihau’r amser y mae athrawon i ffwrdd oddi wrth eu plant.

Roedd staff yr ysgol yn cydweithio’n well, ac ysgolion yn cydweithio’n well, yn sgil y newid i wythnos anghymesur. Felly, dadleuodd Mrs Thomas fod addysgu a dysgu’n datblygu er gwell a’r prif reswm dros hynny oedd bod gwybodaeth a dealltwriaeth y staff o ddatblygiadau addysgol allweddol wedi’i hehangu. Dim ond trwy’r amser ychwanegol sydd ar gael drwy’r wythnos anghymesur y mae hyn wedi bod yn bosibl.

**‘Rwyf wedi bod ar deithiau cerdded dysgu lle rwyf wedi clywed y cynorthwywyr cymorth dysgu yn gwneud gweithgareddau a gemau Cymraeg gyda’r plant – ni fyddai ganddyn nhw’r sgiliau i wneud hynny o’r blaen… Rwyf wedi’u gweld yn arwain TGCh, ni fyddent wedi gallu gwneud hynny o’r blaen.’**

Mae Mrs Thomas yn teimlo’n gyffrous ynghylch y posibilrwydd o staff o fwy o ysgolion yn hyfforddi gyda’i gilydd mewn clystyrau o ganlyniad i boblogrwydd cynyddol yr wythnos anghymesur yn yr ardal. Mae staff o ysgolion cyfagos eisoes wedi’u gwahodd i Ddoc Penfro ar brynhawn Gwener i ymuno mewn sesiynau dysgu proffesiynol cydweithredol.

### Arweinyddiaeth

Roedd arweinyddiaeth yn allweddol i fabwysiadu'r wythnos anghymesur, o ystyried bod y pennaeth yn gyfrifol am ddysgu proffesiynol yn yr ysgol hefyd. Dywedodd Mrs Thomas ei bod hi'n bwysig rhoi cydnabyddiaeth i bwysigrwydd lles staff a'u datblygiad proffesiynol, yn ogystal â'r angen i athrawon gymryd rhan mewn ymchwil a gweithio ar sail ymchwil. Roedd hyn, meddai, yn newid llwyr mewn diwylliant, yn enwedig i athrawon mwy profiadol nad oedd wedi ysgrifennu aseiniad neu gymryd rhan mewn ymchwil ers blynyddoedd lawer.

### Heriau

Dywedodd Mrs Thomas fod yna wrthwynebiad i'r wythnos anghymesur gan ychydig o rieni a oedd yn gweithio ac roeddynt yn ystyried hi'n annheg y byddai rhai plant yn gallu mynd adre'n gynnar ar ddydd Gwener, tra byddai eraill yn methu gwneud hynny. Dywedodd ei bod hi'n bwysig symud y canfyddiad bod ysgol yn rhywbeth 'gwael' yn yr achos hwn, ac na fyddai unrhyw blentyn o dan anfantais pe bai'n aros yn yr ysgol gydol yr wythnos. Cynhaliwyd cyfarfodydd agored i roi cyfle i'r rhieni drafod y trefniadau newydd yn bersonol, a chynhaliodd yr ysgol arolwg dilynol i fesur barn pan oedd yr wythnos anghymesur yn gwbl weithredol. Roedd adborth hyd yn oed yn fwy cadarnhaol ar ôl gweithredu, meddai Mrs Thomas, gan fod rhieni wedi dod yn gyfarwydd â'r trefniadau newydd ac yn gwybod bod eu hyblygrwydd yn caniatáu iddynt adael eu plentyn yn yr ysgol pe bai rhywbeth pwysig yn codi.

**'Mae wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, gan ein bod ni wedi sicrhau na fyddai yna unrhyw newid os nad oedden nhw eisiau newid… [ac] os nad oedden nhw am gasglu eu plant ar brynhawn Gwener, fe allen nhw eu gadael yn yr ysgol i wneud y gweithgareddau hynny.'**

### Ymgynghori

Cyflwynodd Mrs Thomas gynnig i newid strwythur yr wythnos ysgol i'r staff, cyn ei rannu'n ehangach. Gwahoddodd adborth ar gynlluniau i ymestyn y diwrnod ysgol, o ddydd Llun i ddydd Iau, er mwyn rhyddhau amser ar ddydd Gwener, fel rhan o broses ymgynghori ffurfiol. Nid oedd cwestiynau wedi'u cyfyngu i atebion 'ie' neu 'na' er mwyn cael dealltwriaeth lawnach a manylach o farn rhanddeiliaid ar y cynnig.

Ar yr un pryd, cymerodd y wasg leol ddiddordeb yn yr ymgynghoriad a chynnal pleidlais ar-lein yn gofyn i ddarllenwyr a oeddynt yn cefnogi'r newid ai peidio. Canfu'r bleidlais bod 87% o'r 2,026 o ymatebwyr yn cytuno y byddai'r wythnos anghymesur yn gweithio (Western Telegraph, 2018). Dywedodd Mrs Thomas ei bod hi'n bwysig gwerthu'r trefniadau newydd ar y sail eu bod yn gwella cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff a'u heffaith ddilynol gyfatebol ar ddeilliannau disgyblion, oherwydd y canfyddiad poblogaidd bod athrawon eisoes yn cael llawer o amser i ffwrdd.

**'Mae'n bwysig gwerthu'r wythnos anghymesur ar ddatblygiad proffesiynol i'r athrawon a deilliannau gwell i'r plant, oherwydd unwaith rydych chi'n siarad am les athrawon, dyw pobl ddim am wybod oni bai eich bod chi yn y proffesiwn. Maen nhw'n meddwl bod athrawon yn cael digon o amser i ffwrdd fel y mae.'**

Mewn datblygiad pwysig arall ymunodd Doc Penfro â'r ysgol uwchradd leol, Ysgol Harri Tudur, i newid i wythnos anghymesur yr un pryd. Cynhaliodd y ddwy ymgynghoriad gyda'i gilydd, a oedd yn cryfhau achos yr ysgol dros newid o ystyried eu bod yn bwydo'r un dalgylch. Ers hynny, mae mwy o ysgolion yr ardal wedi ymgynghori ar wythnos anghymesur, sy'n galluogi athrawon o ysgolion gwahanol i hyfforddi gyda'i gilydd yr un pryd.

Dywedodd Mrs Thomas fod mwyafrif y cwestiynau a godwyd gan ddisgyblion yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â 'diwrnod sglodion' ac a fyddai plant yn gallu mwynhau sglodion i ginio ar ddydd Gwener fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Doc Penfro'n cael cinio ysgol ac felly mae'r staff arlwyo'n gweini sglodion mewn bocs tecawê fel y gall y disgyblion fynd â nhw adref os ydynt yn dewis peidio ag aros yn yr ysgol. Roedd disgyblion yn dweud eu bod wedi blino ar brynhawn Gwener ac yn ôl Mrs Thomas roeddynt yn croesawu'r syniad o adael yn gynnar 'gan nad oeddynt yn dysgu unrhyw beth bryd hynny beth bynnag'.

### Manteision i ddisgyblion

Yn ôl Mrs Thomas, un o effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol yr wythnos anghymesur i ddisgyblion yw y byddant yn elwa ar staff sydd wedi'u hyfforddi'n well ac wedi'u huwchsgilio. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn derbyn mwy o gyfleoedd datblygu o ganlyniad i sesiynau dysgu proffesiynol prynhawn Gwener, ac mae staff eisoes yn defnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Serch hynny, dywedodd Mrs Thomas ei bod hi'n anodd profi'n union pa effaith mae'r wythnos anghymesur wedi'i chael ar berfformiad disgyblion ac er bod canlyniadau diwedd cyfnodau wedi gwella ychydig y llynedd, nid oedd hi'n bosibl gweld beth oedd effaith uniongyrchol yr wythnos anghymesur ar gyrhaeddiad. Awgrymodd y byddai angen mwy o amser i gymharu a chyferbynnu perfformiad disgyblion, cyn ac ar ôl newid i'r trefniadau newydd. Nid yw presenoldeb ac ymddygiad wedi newid yn sylweddol y naill ffordd na'r llall.

### Rhannu profiadau

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ei datblygiad o'r wythnos anghymesur i glystyrau ysgolion lleol, yr awdurdod lleol, ac yn genedlaethol mewn cynadleddau a gynhelir gan y llywodraeth. Mae Doc Penfro wedi croesawu nifer o ymwelwyr â diddordeb i'r ysgol, yn cynnwys cyrff llywodraethu o ysgolion eraill a oedd yn chwilfrydig am sut roedd yr ysgol yn gweithredu ar ddydd Gwener, yn arbennig.

Dywedodd Mrs Thomas  fod Cynghorydd Heriau'r ysgol (a benodwyd gan y consortiwm addysg rhanbarthol) wedi bod yn gefnogol iawn i'r newid i wythnos anghymesur gan yr ysgol, a bod y cyfle i gynyddu amser dysgu proffesiynol y staff wedi cael croeso da gyda chydweithwyr allanol. Dywedodd fod yr awdurdod wedi cynnig cymorth hefyd ac wedi cytuno i newid trafnidiaeth ysgol a hebryngwyr croesfannau ysgol am ddim ar gyfer y trefniadau newydd. Dywedodd fod yr awdurdod lleol yn hoffi'r syniad cymaint fel ei fod wedi cynhyrchu taflen i ysgolion sydd â diddordeb yn yr wythnos anghymesur, gyda manylion arbennig ar sut i newid amserlenni. Yn wir, nododd Mrs Thomas ei bod hi'n bwysig bod ysgolion yn gwybod mai dim ond ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y gallent weithredu newidiadau o'r fath, ac y byddai angen yr un trefniadau diogelu a chymorth cyntaf gyda llai o staff ddiwedd yr wythnos.

### Dull cenedlaethol

Cymeradwyodd Mrs Thomas ddull cenedlaethol ar gyfer yr wythnos anghymesur, a chyfeirio at nifer cynyddol o ysgolion a oedd yn mabwysiadu trefniadau amserlennu newydd. Nid oedd wedi'i darbwyllo gan yr awgrym bod wythnos anghymesur ond yn addas mewn rhai amgylchiadau, ac roedd yn credu y gallai pob ysgol weithredu amrywiad ar yr un thema. Mae wedi cynnig ei holl ddogfennau perthnasol i ysgolion eraill sy'n dymuno ystyried trefniadau tebyg, a dywedodd fod y ffaith fod cymaint o ysgolion yn gweithredu wythnos anghymesur yn awr yn sicrhau nad oes rhaid i bobl gychwyn o ddim.

**'Mae rhai ysgolion wedi dweud "o na, allen ni ddim gwneud hynny gan na fyddai ein rhieni yn ei hoffi o gwbl" – ond a ydyn nhw am gael athrawon sydd wedi derbyn yr hyfforddiant gorau? Hynny yw, a fyddech chi'n mynd â'ch plentyn at feddyg sydd heb edrych ar yr ymchwil ddiweddaraf yn y 10 mlynedd diwethaf? Dwi'n meddwl bob amser bod rhaid i chi edrych am ffyrdd o wneud rhywbeth, [a] goresgyn y rhwystrau yn lle eu creu.'**

Dywedodd Mrs Thomas y byddai'n bosibl newid maint yr wythnos anghymesur ledled Cymru, ac y byddai llawer o arweinwyr ysgol yn croesawu'r cyfle i ailystyried eu harferion dyddiol. Fodd bynnag, awgrymodd y byddent yn elwa ar fwy o hyblygrwydd i wneud hynny a phe bai cefnogaeth o'r brig, byddai'n rhoi ychydig yn fwy o gefnogaeth i ysgolion wrth gyflwyno'r syniad i'w corff llywodraethol. Dywedodd Mrs Thomas fod yr wythnos anghymesur wedi rhoi bywyd newydd i'w hysgol ac y byddai'n siom fawr pe bai'r ysgol yn dychwelyd i hen ffyrdd o weithio.

### Cwricwlwm i Gymru

Mae Mrs Thomas yn hyderus bod ei hysgol mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau cynllunio a gweithredu cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn sgil yr amser ychwanegol oedd gan ei staff i ymgysylltu â'r dogfennau canllaw. Yn wir, mae'n bwriadu adolygu effaith yr hyfforddiant ar staff wrth i'r *Cwricwlwm i Gymru* ddatblygu.

**'Pan fyddwn wedi dechrau gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llawn, rwy'n meddwl y byddwn ni'n gweld y bydd gan fy staff ddealltwriaeth a gafael da iawn ar rai o'r egwyddorion newydd sy'n sail iddo, o gymharu ag eraill… gan eu bod wedi'u trochi ynddo chyd ac yn sylweddoli mai dyna yw pwrpas yr holl hyfforddiant.'**

## b) Prif ganfyddiadau'r arolwg: Staff

Datblygwyd arolwg gan ddefnyddio adnodd arolwg Qualtrics a'i ddosbarthu i holl staff Ysgol Gymunedol Doc Penfro drwy e-bost, i'w gwblhau yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020. Cyflwynir canlyniadau canfyddiadau'r arolwg mewn graffiau a chyfran yr ymatebion fel canran, er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Mae canrannau wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100. I gefnogi hygyrchedd, mae geiriad rhai cwestiynau ac eitemau yn yr arolwg wedi'u talfyrru. Mae'n bwysig nodi bod pawb yn y sampl a nodwyd wedi cyflwyno eu harolwg i'w ystyried ond nad oedd pob cyfranogwr wedi cwblhau pob cwestiwn; nodir hyn yn glir yn y tudalennau nesaf.

### Nodweddion ymatebwyr

Yn ystod y gwaith o gasglu data, ymatebodd 60 o staff Ysgol Gymunedol Doc Penfro (n=60) i'r arolwg ar-lein. O'r rhain, roedd 55 (92%) yn fenywod a phump (8%) yn ddynion. Roedd y mwyafrif (63%) rhwng 30-50 oed, gyda 27% yn 51 oed a throsodd, a 10% arall o dan 30 oed. Yn ogystal â holi am eu rhywedd a'u hoedran, gofynnwyd dau gwestiwn cychwynnol arall i staff am eu rolau a'u gyrfaoedd yn yr ysgol.

Nododd dros hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg (52%) mai staff cymorth oeddynt, gyda 32% arall yn rhan o'r staff addysgu. Cymerodd uwch dîm arwain yr ysgol (8%) ran hefyd, fel y gwelir yn Ffigur 1 isod.

Fel yr amlinellir yn Ffigur 2, roedd gan gyfran uchel o ymatebwyr (59%) fwy na 10 mlynedd o brofiad o weithio yn yr ysgol. Dim ond 15% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd wedi bod yn yr ysgol am lai na chwe blynedd.


### Effaith ar staff

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am effaith newid i'r wythnos anghymesur arnynt fel staff. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag effaith gweithio dyddiau ysgol hirach, gyda chyfnodau egwyl byrrach ac amser gorffen hwyrach, bedwar diwrnod yr wythnos, ac i ba raddau roeddynt yn gallu ymdopi â hyn. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 3 isod.

Roedd ychydig iawn o ymatebwyr yn teimlo bod ymdopi â'r dyddiau ysgol hirach naill ai 'ychydig yn waeth' neu'n 'llawer gwaeth' (2%) yn hytrach na gweithredu'r hen drefniadau. Canfu'r mwyafrif fod y trefniadau newydd 'tua'r un fath' o ran ymdopi â nhw (57%), tra bod 41% yn dweud eu bod naill ai'n 'llawer gwell' neu 'ychydig yn well' na'r hen ffyrdd o weithio. Mae'r ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod bron yr holl staff yn gallu ymdopi â'r dyddiau ysgol hirach yr un mor hawdd â'r dyddiau ysgol safonol yr oeddynt yn gyfarwydd â nhw o'r blaen.


Gan gydnabod y gallai fod yna nifer o resymau am y data a gasglwyd yn Ffigur 3, gofynnwyd i staff a oedd yna ffactorau penodol sy'n berthnasol i'r wythnos anghymesur a oedd wedi bod yn heriol iddyn nhw. Roedd hyn yn seiliedig ar yr anhawster yr oedd rhai rhieni mewn cyd-destunau eraill yn ei gael i gael trefniadau gofal plant addas (ar gyfer prynhawn Gwener yn fwyaf arbennig yn yr achos hwn). Mae'r ffigur isod yn darparu'r canlyniadau.

**Ffigur 1 - Pa un sy'n disgrifio'ch rôl orau?**





*Atebodd 60 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 2 - Am faint o amser ydych wedi bod yn gweithio yn yr ysgol?**




*Atebodd 60 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 3 - Pa mor hawdd oedd ymdopi â'r dyddiau ysgol hirach, a gyflwynwyd yn sgil yr wythnos anghymesur?**




*Atebodd 58 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Mae Ffigur 4 yn awgrymu bod mwyafrif staff yr ysgol wedi canfod fod trefnu gofal plant, trafnidiaeth ysgol a gweithgareddau allgyrsiol wedi bod yn syml ers symud i wythnos anghymesur. Roedd naw o bob 10 (87%) o'r staff yn dweud bod trefnu gofal plant 'ddim yn heriol o gwbl', gyda dim ond 3% yn ei ystyried yn 'eithriadol o heriol' neu'n 'heriol iawn'. Dywedodd 83% o ymatebwyr bod trefnu trafnidiaeth ysgol 'ddim yn heriol o gwbl', gyda thua saith o bob 10 (72%) heb gael unrhyw drafferth o ran manteisio ar weithgareddau allgyrsiol. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr (25%) fod trefnu gweithgareddau allgyrsiol naill ai'n 'weddol heriol' neu 'ychydig yn heriol'.


Yn gyffredinol, mae'r ymatebion hyn yn cyflwyno darlun cymharol gadarnhaol o'r gofynion ychwanegol ar staff mewn perthynas â'u cyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith. Maent yn awgrymu bod ymatebwyr wedi ymdopi'n eithaf da â rhai o'r newidiadau ymarferol, amlycaf a oedd yn deillio o'r wythnos anghymesur, gan alluogi staff i ganolbwyntio ar weithgareddau yn yr ysgol.

Mae Ffigur 5 yn allweddol i ffocysau'r ymchwil gan ei fod yn ymwneud yn benodol iawn ag effaith yr wythnos anghymesur ar yr ymatebwyr eu hunain. Gofynnwyd i staff a oedd addasiadau'r wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad proffesiynol, llwyth gwaith, iechyd a lles meddyliol, bywyd teuluol/cartref, addysgu a morâl. Ni atebodd yr holl ymatebwyr bob eitem, er bod cyfraddau ymateb yn uchel gan mwyaf.

Fel y dangosir yn Ffigur 5, mae'r canlyniadau'n galonogol ar y cyfan, o ran bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar bob agwedd. Mae'n ymddangos mai bywyd teuluol/cartref gwell yw'r datblygiad mwyaf addawol, gyda 76% o'r 58 o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol. Roedd gwelliannau i iechyd a lles meddyliol staff yn uchel hefyd, gyda 74% o'r 58 a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod newidiadau wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, a 72% o'r 57 yn dweud yr un peth am eu morâl. Cytunodd saith o bob 10 (68% o'r 58 o ymatebwyr) fod eu datblygiad proffesiynol wedi elwa, er bod yr un nifer o ymatebwyr yn dweud eu bod 'ddim yn cytuno nac anghytuno' ag a ddywedodd eu bod yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' (16%).


Roedd effaith yr wythnos anghymesur ar lwyth gwaith ychydig yn llai pendant, er bod y mwyafrif (54% o'r 54 o ymatebwyr) yn dal i deimlo bod y newidiadau wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Roedd bron i bedwar o bob 10 (37%) 'ddim yn cytuno nac anghytuno', tra bod 9% yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Nid yw'n bosibl nodi'n union ar ba elfennau o'u hymarfer addysgu yr effeithiwyd yn gadarnhaol, er bod y mwyafrif (65% o 49 a ymatebodd) yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi bod yn fwy o gymorth na rhwystr. Nid oedd gan 33% arall deimladau cryf y naill ffordd na'r llall.

**Ffigur 4 - Ers symud i'r wythnos anghymesur, i ba raddau mae trefnu'r canlynol wedi bod yn heriol i chi:**




*Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio o 24 i 32*

**Ffigur 5 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar eich:**




*Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio o 49 i 58*

Yn dilyn ymlaen o Ffigur 5, gwahoddwyd staff i sgorio beth oedd agweddau mwyaf a lleiaf buddiol yr wythnos anghymesur yn eu barn nhw. Roedd mwyafrif (43%) yr ymatebwyr yn teimlo mai iechyd a lles meddyliol gwell oedd canlyniad mwyaf buddiol y newid i'r trefniadau newydd, tra bod mwy o amser hamdden yn cael ei ystyried fel y lleiaf buddiol (71%). Roedd cael mwy o amser ar gyfer dysgu proffesiynol yn cael ei ystyried yn ddatblygiad pwysig hefyd, tra bod treulio amser gartref/gyda'r teulu yn llai pwysig.

Gyda'i gilydd, mae'r data a gyflwynir yn ffigurau 5 a 6 yn awgrymu bod y gwelliannau i iechyd a lles meddyliol staff wedi bod yn sylweddol, yn dilyn cyflwyno'r wythnos anghymesur. Yn wir, byddai'r ystadegau'n awgrymu bod iechyd a lles meddyliol gwell wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf i staff yr ysgol. Mae'n amlwg bod mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol yn cael eu hystyried yn fuddiol i staff hefyd. Mae'r canlyniadau hyn yn addawol ac, o safbwynt y staff, maent yn ymddangos fel petaent yn cadarnhau penderfyniad y pennaeth i gyflwyno newidiadau anghymesur.


## Effaith ar ddisgyblion

Yn ogystal ag effaith yr wythnos anghymesur arnyn nhw eu hunain fel staff, gofynnwyd i'r ymatebwyr am effaith y trefniadau newydd ar ddisgyblion. Gan weithio ar y dybiaeth bod gan staff yr ysgol ddealltwriaeth dda o ddyheadau ac anghenion disgyblion, gofynnwyd iddynt ystyried i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu, iechyd a lles meddyliol, llwyth gwaith, presenoldeb ac ymddygiad y disgyblion. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 7 isod.

Mae Ffigur 7 yn cyflwyno ystod ddiddorol o ganlyniadau. Yn debyg i'w dehongliad cadarnhaol o'u hiechyd a lles meddyliol eu hunain, dywedodd staff fod yr wythnos anghymesur wedi cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar iechyd a lles meddyliol disgyblion. Roedd mwyafrif llethol (80%) y 55 ymatebydd i'r eitem arbennig hon yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles meddyliol disgyblion, o gymharu â dim ond 5% a oedd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'.


Roedd mwy o ymatebwyr yn teimlo bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu disgyblion nag oedd ddim (53% o'r 55 a atebodd) a llwyth gwaith (54% o'r 54 a atebodd), er bod lleiafrif sylweddol 'ddim yn cytuno nac anghytuno' bod naill eitem na'r llall wedi arwain at effaith gadarnhaol. Mae'r effaith ar bresenoldeb disgyblion yn llawer mwy amhendant, yn ôl staff, gyda'r mwyafrif (38% o 55 o ymatebwyr) ddim yn cytuno nac anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol. Yn wir, roedd mwy o bobl yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' (33%) nag oedd yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' (29%). Yn yr un modd, roedd y staff yn ymddangos yn llai argyhoeddedig bod y trefniadau anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion, gyda'r mwyafrif (56% o'r 55 a atebodd) ddim yn cytuno nac yn anghytuno bod patrymau newydd wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol.

**Ffigur 6 - Sgoriwch fanteision yr wythnos anghymesur yn eu trefn, gydag 1 yn fwyaf buddiol a 5 yn lleiaf buddiol:**




*Atebodd 51 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 7 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion o ran y canlynol:**




*Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio o 54 i 55*

Er bod y data a gyflwynir yn Ffigur 7 braidd yn amrywiol, mae'n dangos bod mwy o staff yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y trefniadau anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ym mhob un ond un o'r eitemau (presenoldeb) nag a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Mae hwn yn arsylwad pwysig, gan ei fod yn awgrymu bod manteision cadarnhaol yr wythnos anghymesur yn fwy na'r agweddau negyddol i ddisgyblion yn ogystal â staff, o leiaf o safbwynt y staff.

## Effaith ar yr ysgol

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr yn ymwneud ag effaith newid i'r wythnos anghymesur ar eu hysgol, ac ysgolion yn fwy cyffredinol. Mae'r cyntaf yn cyflwyno barn gyffredinol o effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gymunedol Doc Penfro. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 8 isod.


Mae Ffigur 8 yn cyflwyno darlun cymharol gadarnhaol o effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gymunedol Doc Penfro. Yn gyffredinol, roedd 76% o ymatebwyr yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol, gyda dim ond 5% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd mwy na phedwar o bob 10 (45%) yn 'cytuno'n gryf' bod newid wythnos yr ysgol i wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar yr ysgol. Yn gyffredinol, mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol gan ei fod yn awgrymu bod penderfyniad yr ysgol i fabwysiadu'r wythnos anghymesur wedi talu ar ei ganfed, yn ôl ei staff.

Yn sgil y manteision canfyddedig i ddysgu proffesiynol sy'n deillio o'r trefniadau anghymesur, gwahoddwyd staff i ystyried i ba raddau mae cydweithio yn eu hysgol a rhwng ysgolion wedi gwella ers gweithredu'r strwythurau newydd. Fel y cyflwynir yn Ffigur 9, roedd 43% o'r ymatebwyr yn teimlo bod cydweithio *o fewn* Ysgol Gymunedol Doc Penfro wedi'i gefnogi 'llawer iawn' yn sgil y cyfleoedd dysgu proffesiynol newydd a ddaeth gyda'r wythnos anghymesur. Roedd 36% arall yn teimlo bod cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol wedi cefnogi cydweithio ar draws yr ysgol 'llawer'.

Gyda'i gilydd, mae'r data'n dangos bod 79% o ymatebwyr yn credu bod yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio o leiaf 'llawer' ledled yr ysgol, gyda dim ond 7% yn credu nad oedd wedi cefnogi cydweithio o gwbl.


Mae Ffigur 10, isod, yn dangos bod mwy o staff yn teimlo bod yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio *rhwng* ysgolion nag oedd yn credu fel arall, er bod cryfder y farn o blaid ei heffaith gadarnhaol ychydig yn wannach. Dywedodd un o bob pump o ymatebwyr (20%) nad oedd yr wythnos anghymesur wedi gwneud gwahaniaeth i gydweithio rhwng ysgolion, tra bod 63% yn credu ei bod wedi cefnogi cydweithio o leiaf 'llawer' rhwng ysgolion. Mae Ffigurau 9 a 10 yn awgrymu bod gwell cydweithio o fewn a rhwng ysgolion yn un o fanteision gwirioneddol y trefniadau anghymesur, o leiaf yn yr achos hwn, er bod y manteision cydweithredol yn ymddangos yn gryfach o fewn ysgolion eu hunain.

**Ffigur 8 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod newid wythnos yr ysgol i wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol?**





*Atebodd 58 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 9 - I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol sydd wedi'u creu gan yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio o fewn yr ysgol?**




*Atebodd 56 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 10 - I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol sydd wedi'u creu gan yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio rhwng ysgolion?**




*Atebodd 55 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Yn rhan nesaf yr arolwg, gofynnwyd dau gwestiwn i'r staff gyda'r bwriad o gefnogi ysgolion eraill sy'n ystyried cyflwyno trefniadau anghymesur. Roedd y cyntaf, a gyflwynir yn Ffigur 11, yn gwahodd ymatebwyr i osod pum her bosibl i fabwysiadu wythnos anghymesur yn eu trefn.

Dewiswyd yr heriau ar sail cyfraniadau arweinwyr y ddwy ysgol yn ystod y broses gyfweld, a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod adolygiad llenyddiaeth cyd-destunol yr adroddiad. Felly, gofynnwyd i'r staff pa un o'r pum her ganlynol i gyflwyno wythnos anghymesur a oedd yn fwyaf heriol:

- Newid meddylfryd y staff;
- Cael cefnogaeth cymuned yr ysgol;
- Trefnu gofal plant;
- Cytuno ar amserlen newydd;
- Paratoi ar gyfer trefniadau newydd.

Mae'r ddau gyntaf ar y rhestr (newid meddylfryd y staff a chael cefnogaeth gan gymuned yr ysgol) yn seiliedig ar ryngweithiadau cymdeithasol y staff a newid diwylliant yn bennaf, tra bod y tri olaf yn ymwneud yn fwy penodol â'r trefniadau ymarferol a logistaidd sy'n ofynnol i newid o strwythur mwy traddodiadol i wythnos anghymesur.

Yn gyffredinol, roedd y staff yn ystyried mai cael cefnogaeth cymuned yr ysgol oedd agwedd fwyaf heriol cyflwyno wythnos anghymesur, gyda 42% yn nodi hyn fel yr her flaenaf. Roedd paratoi ar gyfer trefniadau newydd yn cael ei ystyried yn her fwy sylweddol hefyd, gyda 19% yn ei nodi fel yr un fwyaf heriol a 31% arall yn ei nodi fel yr ail fwyaf heriol.


Trefnu gofal plant oedd y lleiaf problematig i staff, gyda 56% yn ei roi yn bumed allan o bump a 21% yn ei roi yn bedwerydd allan o bump. Roedd newid meddylfryd y staff a chytuno ar amserlen newydd wedi'u gwasgaru'n gymharol gyfartal ar draws yr ystod o heriau.

Mae Ffigur 11 yn ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi syniad i ysgolion sydd mewn cyd-destunau tebyg o ba agweddau ar fywyd ysgol y mae'n debygol y bydd rhaid iddynt eu hystyried wrth fabwysiadu wythnos anghymesur, a graddau'r her a gyflwynir gan rai eitemau. Er enghraifft, byddai data a gyflwynir yn Ffigur 11 yn awgrymu y gallai ysgolion dreulio mwy o amser yn datblygu ffyrdd o gael cefnogaeth gan gymuned yr ysgol, nac yn gwneud trefniadau gofal plant. Y cafeat, wrth gwrs, yw y bydd gwahanol ysgolion mewn gwahanol gyd-destunau yn debygol o fod wedi ymateb i'w heriau eu hunain mewn gwahanol ffyrdd.

Mae gan Ffigur 12, isod, ddiddordeb yn y ffactorau sydd bwysicaf i weithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus.


Fel y nodir uchod, mae'r data'n fwy pendant ar gyfer Ffigur 12 na Ffigur 11, gyda chyfran fwy o ymatebwyr yn nodi arweinyddiaeth gref (50%) fel y ffactor pwysicaf ac amser (66%) fel y ffactor lleiaf pwysig sydd eu hangen i weithredu

**Ffigur 11 - Rhowch yr heriau canlynol i gyflwyno wythnos anghymesur yn eu trefn, gyda 1 y mwyaf heriol a 5 y lleiaf heriol:**




*Atebodd 48 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 12 - Beth yw'r ffactorau pwysicaf sydd eu hangen i weithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus? (lle mae 1 yw'r pwysicaf a 5 y lleiaf pwysig)**




*Atebodd 50 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

wythnos anghymesur yn llwyddiannus. Mae cael cefnogaeth y staff yn cael ei ystyried yn un o'r ffactorau pwysicaf yn gyffredinol hefyd, tra bod yna farn wrthgyferbyniol am bwysigrwydd canfyddedig dealltwriaeth rhieni/disgyblion a chael cefnogaeth y gymuned ysgol ehangach.

Mae Ffigur 13, isod, yn gymharol syml gan ei fod yn gofyn i ymatebwyr a fyddent yn argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru, yn sgil eu profiadau. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda 63% yn dweud y byddent yn bendant, a 22% arall yn dweud y byddent mae'n debyg. Yn gyffredinol, dim ond 10% a ddywedodd 'mae'n annhebygol' neu 'na yn bendant' o ran a fyddent yn argymell yr wythnos anghymesur i eraill.


Yn ogystal, gofynnwyd i'r staff ymateb i gwestiwn penagored, yn gofyn iddynt nodi 'beth ellid fod wedi'i wneud yn wahanol i wneud y newid i wythnos anghymesur yn fwy effeithiol?' Roedd yna deimlad o foddhad na fyddai'n bosibl gwella unrhyw beth mewn llawer o'r ymatebion a gyflwynwyd, er bod rhai yn ystyried cyflymder y newid yn fater a oedd yn haeddu ei ystyried ymhellach. Awgrymodd un aelod o staff y byddai gweithredu graddol, yn hytrach na newid sydyn, wedi bod yn well, gan y byddai wedi rhoi mwy o amser i bobl addasu i ffyrdd newydd o weithio. Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â chyfathrebu cryfach a gallu i ymdopi yn cynnwys:

**'Gwnaed llawer i addysgu'r gymuned, ond roedd rhai yn dal i fethu deall beth yn union oedd yn digwydd. Mwy o gyflwyniadau wyneb yn wyneb gyda rhieni efallai?'**

**'Dylai darpariaeth ar gyfer plant sy'n aros yn yr ysgol fod ar gyfer rhieni sy'n gweithio'n unig, neu [gyflwyno] ffi fechan i gadw'r niferoedd yn haws ymdopi â nhw.'**

**'Trefnu'r staff yn deg fel bod gan y ddau 'dîm' yr un nifer o staff o bob adain. Mae anghydbwysedd wedi arwain at ormod o staff mewn rhai wythnosau a dim digon o staff mewn wythnosau eraill.'**

**Ffigur 13 - A fyddech chi'n argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru?**




*Atebodd 51 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

## Goblygiadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Roedd gan yr adran hon ddiddordeb yn y berthynas bosibl rhwng trefniadau anghymesur a’r *Cwricwlwm newydd i Gymru.* Gobeithio y bydd y data a gyflwynir yn yr adran hon yn datblygu syniadau am ad-drefnu addysg i ddiwallu anghenion y cwricwlwm newydd, ac i hysbysu addasiadau posibl i arferion mwy sefydledig yr ystafell ddosbarth yn well er lles gorau’r system addysg yn fwy cyffredinol.


Yn gyntaf oll, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau roedd symud i wythnos anghymesur wedi cynyddu eu cyfleoedd i ystyried goblygiadau'r *Cwricwlwm newydd i Gymru.* Cynlluniwyd y cwestiwn hwn ar y sail bod trefniadau amserlennu newydd wedi creu cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol, a nodwyd gan benaethiaid fel rhywbeth a oedd yn ddefnyddiol i ddatblygu dealltwriaeth o’r cwricwlwm newydd a diwygiadau addysgol ehangach. Felly, ar ôl ystyried barn y ddau bennaeth, byddai’n ddiddorol gweld pa effaith oedd y trefniadau anghymesur wedi’i chael ar baratoadau staff ar gyfer y *Cwricwlwm i Gymru* os o gwbl.

Fel y cyflwynir yn Ffigur 14, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (60%) yn teimlo bod symud i wythnos anghymesur wedi cynyddu eu cyfleoedd i ystyried goblygiadau'r *Cwricwlwm newydd i Gymru* ‘llawer iawn’ neu ‘llawer’. Dywedodd chwarter y staff (25%) nad oedd ‘dim gwahaniaeth’ wedi bod o ran y cyfleoedd a grëwyd i ystyried y cwricwlwm o ganlyniad i’r newid i’r wythnos anghymesur, tra bod 9% wedi dweud nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl.

Os oedd Ffigur 14 yn ystyried effaith *wirioneddol* yr wythnos anghymesur ar eu hystyriaeth o’r cwricwlwm newydd a’u hadnabyddiaeth ohono, mae Ffigur 15 yn cyflwyno portread mwy damcaniaethol o farn ymatebwyr ar fudd yr wythnos anghymesur. Yn gyffredinol, ymatebodd 54 o aelodau staff i’r cwestiwn a oedd symud i wythnos anghymesur o fudd i weithredu’r *Cwricwlwm i Gymru.*


Mae’r canfyddiadau’n gadarnhaol ar y cyfan, ac yn awgrymu bod mwy o staff yn credu y byddai’r wythnos anghymesur yn fuddiol i weithredu’r cwricwlwm nag oedd yn credu fel arall. Fel y gwelir yn Ffigur 15, dywedodd 37% o ymatebwyr fod yna gydberthynas bendant rhwng y ddau, tra bod 41% arall yn credu y byddai’r wythnos anghymesur yn ‘debygol’ o fod yn fuddiol. Roedd lleiafrif bychan (8%) yn credu y byddai’r trefniadau anghymesur yn ‘annhebygol’ o fod yn fuddiol i weithredu’r cwricwlwm newydd neu’n credu’n bendant na fyddai’n fuddiol.

**Ffigur 14 - I ba raddau mae symud i wythnos anghymesur wedi cynyddu'ch cyfleoedd i ystyried goblygiadau'r Cwriwcwlwm newydd i Gymru?**




*Atebodd 53 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 15 - Ydych chi'n meddwl y byddai symud i wythnos anghymesur yn fuddiol i weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru?**




*Atebodd 54 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

### Effaith COVID-19

Daeth yr arolwg i ben gyda chwestiwn amserol, yn ymwneud yn benodol ag effaith COVID-19 ar addysg yng Nghymru ac ymateb y system i'r pandemig. Gofynnwyd i staff, o ystyried natur ddigynsail y sefyllfa gyfredol a'r tebygolrwydd o newidiadau sylweddol o'n blaenau, i ba raddau roeddynt yn credu y byddai gweithredu wythnos anghymesur yn fuddiol wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cau gorfodol. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 16, isod.

O'r 50 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 60% yn credu y byddai'r wythnos anghymesur yn 'ddefnyddiol iawn' wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl COVID-19. Roedd 16% arall yn credu y byddai'n 'gymharol ddefnyddiol', tra bod 18% ddim yn siŵr. Dim ond 6% oedd yn teimlo y byddai'r wythnos anghymesur 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl' ar ôl y pandemig.


Roedd sylwadau cyffredinol eraill a wahoddwyd ar ddiwedd yr arolwg yn cynnwys rhai a oedd yn mynegi diolch am y rhyddid newydd a ddaw yn sgil y trefniadau anghymesur, yn ogystal â dau oedd yn sôn am yr heriau mwy penodol a oedd yn wynebu staff cymorth.

**'Fel staff cymorth, rydym yn cael bob yn ail brynhawn Gwener i ffwrdd. Does dim amser i gynllunio gweithgareddau ac mae gan blant sydd i mewn ddiddordebau gwahanol iawn. Mae'r prynhawniau Gwener i ffwrdd yn braf ac yn gyfle i ymlacio a dwi wrth fy modd gyda nhw, ond mae'r rhai yn yr ysgol yn achosi straen ac mae'n anodd plesio pawb.'**

**'Yn bersonol, mae wedi helpu'n aruthrol gyda llwyth gwaith a lles. Roedd dyddiau Gwener yn arfer bod mor brysur ac rwy'n edrych ymlaen atyn nhw fwy erbyn hyn.'**

**'Fel ysgol a staff rydym wed elwa'n fawr ar yr hyfforddiant ychwanegol, yn fewnol a chan asiantaethau allanol.'**

**Ffigur 16 - Pa mor ddefnyddiol fydd gweithredu wythnos anghymesur wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl pandemig COVID-19?**




*Atebodd 50 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

## C) Prif ganfyddiadau'r arolwg: Disgyblion

Datblygwyd arolwg byr gan ddefnyddio adnodd arolwg Qualtrics a'i ddosbarthu i ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 Ysgol Gymunedol Doc Penfro drwy e-bost, i'w gwblhau yn ystod mis Medi 2020. Cyflwynir canlyniadau canfyddiadau'r arolwg mewn graffiau a chyfran yr ymatebion fel canran, er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Mae canrannau wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100. I gefnogi hygyrchedd, mae geiriad rhai cwestiynau ac eitemau yn yr arolwg wedi'u talfyrru. Mae'n bwysig nodi bod pawb yn y sampl a nodwyd wedi cyflwyno eu harolwg i'w ystyried ond nad oedd pob cyfranogwr wedi cwblhau pob cwestiwn; nodir hyn yn glir yn y tudalennau nesaf. Cymerwyd camau i sicrhau bod yr arolwg yn hygyrch i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol.

### Nodweddion ymatebwyr

Yn ystod y gwaith o gasglu data, ymatebodd 25 disgybl o Ysgol Gymunedol Doc Penfro (n=25) i'r arolwg ar-lein. O'r rhain, roedd 14 (56%) yn ferched a 11 (44%) yn fechgyn. Roedd yr holl ddisgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6.

### Effaith ar ddisgyblion

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am effaith newid i'r wythnos anghymesur arnynt fel disgyblion. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag effaith gweithio dyddiau ysgol hirach, gyda chyfnodau egwyl byrrach ac amser gorffen hwyrach, bedwar diwrnod yr wythnos, ac i ba raddau roeddynt yn gallu ymdopi â hyn. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 17 isod.


Roedd lleiafrif bychan o'r ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd ymdopi â dyddiau ysgol hirach gan ddweud eu bod yn 'wael' neu'n 'wael iawn' (16%). Roedd y rhan fwyaf (52%) yn dweud eu bod yn gallu ymdopi â'r trefniadau newydd yn 'dda', tra bod 16% yn dweud bod cael diwrnod ysgol hirach yn 'dda iawn' ac 16% arall yn dweud ei fod yn 'ddim gwahanol'. Mae'r ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu nad oedd y mwyafrif llethol o ddisgyblion yn gweld y dyddiau ysgol hirach yn anoddach i ymdopi â nhw na'r dyddiau ysgol arferol yr oeddynt wedi arfer â nhw.

Yn dilyn ymlaen o Ffigur 17, gofynnwyd i ddisgyblion hefyd a oedd yr amserlen ysgol newydd wedi bod yn beth da neu wael. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir isod yn Ffigur 18, yn eithaf pendant.

Fel y nodir yn Ffigur 18, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72%) yn teimlo bod yr amserlen ysgol newydd wedi bod yn beth 'da', tra bod 28% 'ddim yn siŵr'. Nid oedd yr un o'r disgyblion a holwyd yn credu bod y trefniadau newydd wedi bod yn 'wael'.


Roedd gennym ddiddordeb ym marn y disgyblion am orffen yn gynnar ar brynhawn Gwener, yn arbennig, felly gofynnwyd iddynt ystyried i ba raddau roeddynt yn edrych ymlaen at orffen yr wythnos ysgol yn gynt. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 19, isod.

**Ffigur 17 - Sut beth yw cael dyddiau ysgol hirach o ddydd Llun i ddydd Iau?**





*Atebodd 25 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 18 - Ydych chi'n credu bod yr amserlen ysgol newydd (gyda dyddiau ysgol hirach o ddydd Llun i ddydd Iau a gorffen yn gynt ar ddydd Gwener) wedi bod yn beth da neu wael?**




*Atebodd 25 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 19 - Ydych chi'n edrych ymlaen at orffen yn gynnar ar ddydd Gwener?**




*Atebodd 25 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Dywedodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr eu bod yn edrych ymlaen ‘bob amser’ (68%) neu ‘y rhan fwyaf o’r amser’ (16%) at orffen yn gynnar ar ddydd Gwener, er bod lleiafrif bychan yn dweud eu bod ‘weithiau’ (12%) neu ‘byth’ (4%) yn edrych ymlaen at hynny. Mae’r canlyniadau hyn yn awgrymu, er bod gorffen yn gynnar yn apelio at y rhan fwyaf o ddisgyblion, nid oedd yn apelio at rai ac mae’n bwysig ystyried pam hynny.

Wrth ehangu ar y rhesymau dros eu barn am orffen yn gynharach, dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (48%) mai cael ‘mwy o amser i chwarae gyda ffrindiau’ oedd y peth gorau am adael ysgol yn gynnar ar brynhawn Gwener. Fel y nodir yn Ffigur 20, roedd 44% arall yn teimlo mai ‘treulio mwy o amser gyda’r teulu’ oedd y peth gorau am wythnos ysgol fyrrach, tra bod cyfran lai yn teimlo mai ‘cael mwy o amser i orffwys’ (8%) oedd y ffactor pwysicaf. Nid oedd yr un disgybl yn credu mai ‘cael mwy o amser i wneud gwaith cartref’ oedd y budd mwyaf.


Yn dilyn ymlaen o ffigurau 19 a 20, gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddynt yn mwynhau’r ysgol yn well nawr, ar ôl gwneud newidiadau i’r amserlen, neu cyn y newidiadau. Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion (48%), fel y nodir yn Ffigur 21 isod, eu bod yn ‘ei fwynhau tua’r un fath’, o gymharu ag un o bob pump (20%) a ddywedodd eu bod yn mwynhau’r ysgol yn well o’r blaen. Yn gyffredinol, dywedodd 32% eu bod yn ‘mwynhau’r ysgol yn well nawr’, ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i’r amserlen.

Roedd sylwadau cyffredinol eraill a wahoddwyd ar ddiwedd yr arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y mwyafrif yn ffafrio’r trefniadau newydd a gyflwynwyd gan yr ysgol. Ychwanegodd yr ymatebwyr:

**‘Mae’n hwyl mynd adref brynhawn Gwener ond pan mae gennych chi lawer i’w wneud mae’n flinedig.’**


**‘Mae’n hwyl gorffen yn gynnar ar ddydd Gwener felly weithiau dwi’n gallu cael ffrindiau i chwarae a gweld fy nheulu.’**

**Ffigur 20 - Beth yw'r peth gorau am orffen yn gynnar ar ddydd Gwener (dewiswch un)?**




*Atebodd 25 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 21 - Ydych chi'n mwynhau'r ysgol yn fwy nawr, ar ôl gwneud newidiadau i'r amserlen, neu oeddech chi'n ei mwynhau'n fwy o'r blaen?**




*Atebodd 25 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

## Prif ganfyddiadau’r arolwg: Rhieni

Datblygwyd arolwg byr gan ddefnyddio adnodd arolwg Qualtrics a’i ddosbarthu i hapsampl o rieni Ysgol Gymunedol Doc Penfro drwy e-bost, i’w gwblhau yn ystod mis Medi 2020. Cyflwynir canlyniadau canfyddiadau’r arolwg mewn graffiau a chyfran yr ymatebion fel canran, er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Mae canrannau wedi’u talgrynnu felly efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100. I gefnogi hygyrchedd, mae geiriad rhai cwestiynau ac eitemau yn yr arolwg wedi’u talfyrru. Mae’n bwysig nodi bod pawb yn y sampl a nodwyd wedi cyflwyno eu harolwg i’w ystyried ond nad oedd pob cyfranogwr wedi cwblhau pob cwestiwn; nodir hyn yn glir yn y tudalennau nesaf.

## Nodweddion yr ymatebwyr

Yn ystod y broses o gasglu data, ymatebodd 13 o rieni disgyblion Ysgol Gymunedol Doc Penfro (n=13) i’r arolwg ar-lein. O’r rhain, roedd wyth (62%) yn fenywod a phump (39%) yn ddynion. Roedd gan y mwyafrif ddau blentyn yn yr ysgol (77%), gyda 23% ag un. Cymerodd rhieni plant o’r dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 i 6 ran yn yr arolwg.

## Effaith ar rieni


Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am effaith newid i’r wythnos anghymesur arnynt fel rhieni. Roedd y cyntaf yn ymwneud â’r ffordd yr ymgynghorodd yr ysgol â nhw am y newidiadau, ac a oeddynt yn teimlo eu bod wedi cael digon o gyfle i gyfrannu at y trefniadau newydd. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 22 isod.

Fel yr amlinellir uchod, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (91%) eu bod naill ai’n ‘fodlon iawn’ neu’n ‘fodlon’ bod yr ysgol wedi ymgynghori digon â nhw cyn newid i wythnos anghymesur. Dim ond 8% a ddywedodd eu bod yn ‘anfodlon’, ac ni ddywedodd yr un ymatebydd nad oedd ‘yn fodlon nac anfodlon’ nac yn ‘anfodlon iawn’ â lefel yr ymgynghori gan yr ysgol.

Yn Ffigur 23, gofynnwyd i’r rhieni i ba raddau roeddynt yn cytuno neu’n anghytuno â phenderfyniad yr ysgol i gau’n gynt ar brynhawn Gwener. Dywedodd y mwyafrif (82%) eu bod yn ‘cytuno’ neu’n ‘cytuno’n gryf’ â phenderfyniad yr ysgol, tra bod 9% arall yn dweud nad oeddynt ‘cytuno nac anghytuno’. Yn gyffredinol, dywedodd llai nag un o bob 10 (9%) eu bod yn ‘anghytuno’ ac nid oedd yr un ymatebydd yn ‘anghytuno’n gryf’ â’r diwedd cynharach i’r wythnos ysgol. Gyda’i gilydd, mae’r ymatebion a gyflwynir yn Ffigur 23 yn awgrymu cefnogaeth gref i benderfyniad yr ysgol i gwtogi’r wythnos ysgol rai oriau ar brynhawn Gwener.


Fel yr amlinellir yn Ffigur 24, gofynnwyd i’r ymatebwyr i ba raddau roedd trefnu gofal plant, trafnidiaeth ysgol, gweithgareddau allgyrsiol a phatrymau shifftiau/gwaith wedi bod yn heriol iddynt ers i’r ysgol symud i wythnos anghymesur. Cynlluniwyd y cwestiwn hwn i weld pa faes yn gysylltiedig â’r trefniadau newydd oedd wedi bod yn fwyaf heriol ac yn lleiaf heriol i rieni.

**Ffigur 22 - Pa mor fodlon ydych chi bod yr ysgol wedi ymgynghori ddigon â chi cyn newid i wythnos anghymesur?**





*Atebodd 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 23 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno â phenderfyniad yr ysgol i gau'n gynharach ar brynawn Gwener?**




*Atebodd 11 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 24 - Ers symud i'r wythnos anghymesur, i ba raddau mae trefnu'r canlynol wedi bod yn heriol i chi:**




*Roedd y gyfradd ymateb i’r cwestiwn hwn yn amrywio, o 6 i 10*

Yn ôl rhieni, trefnu gweithgareddau allgyrsiol oedd agwedd leiaf heriol yr wythnos anghymesur, gyda 71% yn cadarnhau bod gwneud trefniadau newydd 'ddim yn heriol iawn/ddim yn heriol o gwbl'. Yn gyffredinol, dywedodd 60% yr un peth am sifftiau/patrymau gwaith a dywedodd 56% arall yr un peth am ofal plant. Dywedodd hanner (50%) yr ymatebwyr fod trefnu trafnidiaeth ysgol 'tua'r un fath', tra bod 30% yn dweud bod sifftiau/patrymau gwaith yn 'heriol iawn/ychydig yn heriol'.

Fel y nodir yn Ffigur 24, safbwyntiau ymatebwyr ar ofal plant oedd fwyaf amhendant, gyda chymaint o rieni'n credu eu bod 'tua'r un fath' i'w trefnu ag oedd yn teimlo eu bod yn 'heriol iawn/ychydig yn heriol'. Fodd bynnag, nid oedd gofal plant yn heriol iawn neu'n heriol o gwbl i'r mwyafrif, sy'n awgrymu bod pob rhiant yn wynebu ei sefyllfa unigryw ei hun.

## Effaith ar ddisgyblion


Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr am effaith y newid i'r wythnos anghymesur ar eu plentyn/plant. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno bod y newid wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn/plant. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 25, isod.

Fel y nodir yn Ffigur 25, roedd hanner yr ymatebwyr (50%) yn 'cytuno'n gryf' bod penderfyniad yr ysgol i symud i wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu plentyn/plant. Dywedodd 17% arall eu bod yn 'cytuno', tra bod 17% o rieni eraill 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' mai dyma'r achos. Yn gyffredinol, dim ond 17% a ddywedodd eu bod yn 'anghytuno' ac ni ddywedodd unrhyw riant ei fod yn 'anghytuno'n gryf' bod y newidiadau i'r amserlen wedi cael effaith gadarnhaol.

Nesaf, gofynnwyd i rieni'n benodol am i ba raddau roeddynt yn cytuno bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles, dysgu, ymddygiad a bywyd teuluol/cartref eu plentyn/plant. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 26, isod.


O ran y pedwar maes diddordeb, roedd mwy o ymatebwyr yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol na'r rhai a oedd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Dywedodd y mwyafrif llethol eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod eu plentyn/plant wedi elwa ar y trefniadau anghymesur mewn perthynas â bywyd teuluol/cartref (75%) ac iechyd a lles meddyliol (67%). Roedd y gyfran yn uchel hefyd ar gyfer dysgu (50%) ac ymddygiad (42%), er bod mwy o rieni'n ei chael hi'n anoddach penderfynu a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol. Roedd nifer y rhieni a oedd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' ag effaith gadarnhaol yr wythnos anghymesur yn gymharol isel ar draws y pedwar maes.

**Ffigur 25 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod penderfyniad yr ysgol i newid i wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar eich plentyn/plant?**




*Atebodd 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 26 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar y canlynol mewn perthynas â'ch plentyn/plant:**




*Atebodd 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

## Effaith ar yr ysgol


I orffen, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr am effaith newid i'r wythnos anghymesur ar eu hysgol, ac ysgolion yn fwy cyffredinol. Mae'r cyntaf yn cyflwyno barn gyffredinol ar effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gymunedol Doc Penfro. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 27, isod.

Mae Ffigur 27 yn cyflwyno darlun cadarnhaol ar y cyfan o effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gymunedol Doc Penfro, ym marn y rhieni. Dywedodd y mwyafrif (66%) eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol, gyda dim ond 17% yn dweud eu bod yn 'anghytuno'. Ni ddywedodd yr un rhiant ei fod yn 'anghytuno'n gryf' bod y newid i wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar yr ysgol. Mae'r data'n dangos bod llawer mwy o rieni'n teimlo bod y newid i'r wythnos anghymesur wedi bod yn beth da nag oedd yn credu fel arall.

Fel y nodir yn Ffigur 28, gofynnwyd i'r rhieni a fyddent yn argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru. Ymatebodd mwyafrif y rhieni'n gadarnhaol, gan awgrymu y byddent yn 'debygol' neu'n 'bendant' (90%) o argymell yr wythnos anghymesur, tra bod 10% arall 'ddim yn siŵr'. Ni ddywedodd yr un rhiant ei fod yn 'debygol' neu'n 'bendant' o beidio ag argymell y drefn amserlennu newydd.


Cododd sylwadau cyffredinol eraill a wahoddwyd ar ddiwedd yr arolwg nifer o faterion pwysig a oedd yn wynebu rhieni a'u disgyblion. Roedd sawl un yn ymwneud ag effaith yr wythnos anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr, yn ogystal ag awgrymiadau ar sut i ddatblygu'r trefniadau cyfredol er gwell. Mae amrywiaeth o ymatebion wedi'u coladu isod:

**Ffigur 27 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod penderfyniad yr ysgol i newid i wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol?**




*Atebodd 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 28 - A fyddech chi'n argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru?**




*Atebodd 10 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**'Mae fy mhatrwm sifftiau'n golygu fod fy mhlant yn gorffen yn gynnar brynhawn Gwener bob yn ail wythnos. Maen nhw'n edrych ymlaen at orffen yn gynnar ar ddydd Gwener ond hefyd yn mwynhau gallu dewis gweithgareddau pan maen nhw'n mynychu'r sesiynau cofleidiol ar ddydd Gwener. Dwi'n gweld yr wythnos anghymesur yn fuddiol iawn i ni fel teulu gan ei bod yn rhoi mwy o amser i ni gyda'n gilydd.'**

**'Dim ond am fod gen i gyflogwr cefnogol sy'n gadael i mi weithio gartref ar ddydd Gwener yr ydw i'n hapus gyda'r trefniant. Os na fyddai'n caniatáu hynny, fe fyddai'n rhaid iddyn nhw aros yn yr ysgol nes yr amser casglu arferol.'**

**'Mae fy mhlant wrth eu boddau gyda dydd Gwener byrrach ac mae'n help gwirioneddol i fy mhlentyn sydd ddim yn mwynhau mynd i'r ysgol. Pan fyddwn ni'n cyrraedd bore dydd Iau mae'n teimlo fel ein bod ni "bron yno" gyda'r wythnos ac mae'n llawer haws i ni reoli'r amharodrwydd i fynychu. Dwi'n teimlo bod cael prynhawn Gwener i ymlacio/dod at eu hunain ar ôl yr wythnos ysgol yn fuddiol iawn i fy mhlant i; rydym yn gallu dechrau bore Sadwrn yn llawer mwy cadarnhaol, ar ôl cefnu rhywfaint ar yr wythnos ysgol.'**

# 8.2 Astudiaeth achos: Ysgol Gyfun Treorci

Mae Ysgol Gyfun Treorci yn ysgol fawr gyda thua 1,600 o blant yn Rhondda Cynon Taf. Mae gan yr ysgol 100 o staff addysgu ac 80 o staff cymorth, ac mae tua 25% o'i disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Yn adroddiad arolygu diwethaf Estyn, a gyhoeddwyd yn 2016, cafodd perfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon ar gyfer gwella eu graddio'n 'dda'.

Mabwysiadodd Ysgol Gyfun Treorci wythnos anghymesur ym Medi 2017 ar ôl proses ymgynghori hir o 16 mis. Cyflwynwyd amrywiaeth o opsiynau ynghylch strwythur yr wythnos ysgol i staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ysgol ehangach cyn gweithredu newidiadau. Cafodd disgyblion o bob grŵp oedran eu cynnwys, ac roedd y strwythur a gymeradwywyd yn cynnwys newid o bum gwers awr o hyd y dydd am bum niwrnod, i chwe gwers 55 munud rhwng dydd Llun a dydd Iau, a phedair gwers 55 munud ar ddydd Gwener. Ni newidiwyd amser cychwyn y diwrnod ysgol, ond mae amser cinio a chofrestru yn y bore wedi'u cwtogi bum munud, a diwedd y diwrnod ysgol wedi'i ymestyn 15 munud, rhwng dydd Llun a dydd Iau. Mae hyn wedi rhyddhau amser ar brynhawn Gwener ar gyfer sesiynau dysgu proffesiynol neu les y staff, drwy eu rhyddhau'n gynnar o'r ysgol.

Mae staff yn gweithio ar rota pythefnos, gyda sesiynau dysgu a llesiant proffesiynol yn cael eu cynnal bob yn ail wythnos. Mae'r gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cael eu cyfeirio gan uwch dîm arwain yr ysgol ac yn ymwneud yn benodol â'r meysydd diddordeb a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae'r sesiwn hon yn galluogi staff i fynychu cyfarfodydd adrannol a drefnwyd, a allai fod wedi'u cynnal y tu allan i oriau ysgol fel arall. Mae'r ail ddydd Gwener yn cynnig cyfle i'r staff adael yr ysgol am 1.30pm i gwblhau gweithgareddau o'u dewis nhw. Mae'r disgyblion yn gadael yr ysgol am 1.30pm bob dydd Gwener, er bod gweithgareddau cyfoethogi am ddim yn cael eu darparu ar y safle nes 3.30pm i'r rhai sy'n dymuno aros yn yr ysgol. Mae trafnidiaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar gael i ddisgyblion sy'n gadael am 1.30pm, fel y mae bob diwrnod arall o'r wythnos.

Y newid nodedig arall i'r amserlen ysgol yw cyflwyno amser 'Paratoi' pwrpasol. Nod yr amser Paratoi yw meithrin cadernid a helpu disgyblion i baratoi'n iawn ar gyfer gwersi, ac mae'n cael ei ddarparu yn ystod y tair gwers ychwanegol drwy leihau'r amser a roddir i wersi unigol. Mae'r sesiynau Paratoi yn cael eu cynnal y peth cyntaf bob dydd Llun, canol ffordd drwy ddydd Mercher a'r wers olaf ar ddydd Gwener. Mae gweithgareddau Paratoi yn cynnwys darllen yn dawel, cwblhau gwaith cartref, amser cylch, gwaith grŵp a sesiwn lawn safonol. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu cydgysylltu gan yr uwch dîm arwain, sy'n rhoi 'glasbrint' o'r amser Paratoi i staff o dro i dro.

## a) Prif ganfyddiadau cyfweliad: Arweinydd yr ysgol

Cafodd pennaeth Ysgol Gyfun Treorci, Rhys Angell Jones, ei benodi ym mis Ionawr 2011. Cytunodd i gymryd rhan mewn cyfweliad lled-strwythuredig ar-lein a oedd tua 60 munud o hyd ac a gynlluniwyd i glywed ei brofiadau a'i farn ar newid i wythnos ysgol anghymesur. Cynhaliwyd y cyfweliad ym mis Ebrill 2020 drwy Microsoft Teams. Cafwyd llawer o ddata ansoddol o'r cyfweliadau ac mae'r cwestiynau a holwyd wedi'u rhestru yn yr Atodiad. Cyflwynir canlyniadau'r cyfweliadau ar ffurf ysgrifenedig, o dan gyfres o benawdau thematig i allu cyfeirio atynt yn hawdd. Defnyddiwyd dyfyniadau uniongyrchol i ddangos pwyntiau penodol ac roedd Mr Jones yn ymwybodol y byddai ei ymatebion yn cael eu darparu i'r cyhoedd a'u priodoli iddo ef.

### Cymhelliant

Mae canlyniadau arholiadau allanol wedi bod yn amrywio o un flwyddyn i'r llall yn Ysgol Gyfun Treorci, ac er bod yr uwch dîm rheoli'n hyderus bod yr addysgu a'r dysgu'n gadarn, roedd gwerthusiadau wedi dangos bod disgyblion yn dangos diffyg annibyniaeth a bron yn gwbl ddibynnol ar y staff. Ceisiodd yr ysgol, o dan arweinyddiaeth Mr Jones, ddatblygu'r annibyniaeth hwn fel y byddai disgyblion yn fwy tebygol o barhau i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Wedi'u hysbrydoli gan ymweliad i ysgol yng Nghaergrawnt, ystyriodd Mr Jones a'i dîm mai newid yr amserlen ysgol oedd y ffordd fwyaf effeithlon o gynnwys amser ychwanegol i gefnogi datblygiad sgiliau annibynnol newydd. Y fantais ychwanegol ganfyddedig o newid i wythnos anghymesur oedd y byddai staff yn cael mwy o amser i gwblhau dysgu proffesiynol yn yr ysgol, a chyfle i adael yr ysgol yn gynnar bob yn ail ddydd Gwener. Er y byddai gwersi'n fyrrach o dan y trefniadau newydd, bydd pob pwnc yn dal i gael yr un nifer o wersi ac yn ystod y flwyddyn, byddai pob plentyn yn elwa ar gael 26 awr ychwanegol o amser cyswllt â'u hathro. Dywedodd Mr Jones nad oedd penderfyniad Treorci i symud i wythnos anghymesur yn seiliedig ar resymau ariannol ac, os rhywbeth, nid oedd wedi costio fawr ddim i'r ysgol.

## Arweinyddiaeth

Roedd arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn allweddol i weithredu'r wythnos anghymesur. Roedd angen i'r uwch arweinwyr, arweinwyr canol a'r holl athrawon helpu i farchnata a hyrwyddo manteision sy'n gysylltiedig â'r trefniadau newydd, er mwyn sicrhau cefnogaeth ehangach gan y gymuned ysgol. Dywedodd Mr Jones na fyddai wedi gallu cyflwyno newidiadau i'r amserlen ysgol heb gefnogaeth ei dîm arwain, a'i bod hi'n hanfodol cael cefnogaeth pobl.

## Lles

I ddisgyblion, roedd gwersi Paratoi yn cael eu hamserlennu'n fwriadol er mwyn gallu cael sesiynau gwirio rheolaidd â staff. Cynhelir y sesiynau ar adegau allweddol yn ystod yr wythnos - peth cyntaf bob dydd Llun, hanner ffordd drwy ddydd Mercher a'r wers olaf ar ddydd Gwener (h.y. dechrau, canol a diwedd yr wythnos) i sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd strwythuredig i ofyn cwestiynau i athrawon ac elwa ar eu cyngor a'u cefnogaeth ar sail mwy un i un. Mewn gwirionedd, mae cynllun yr amser Paratoi'n darparu cefnogaeth 'gofleidiol' ar gyfer anghenion bugeiliol ym mhob grŵp blwyddyn, gyda 'hyfforddwyr dysgu' (tiwtoriaid blwyddyn) wedi'u dynodi i gefnogi gwahanol grwpiau o blant.

## Ymgynghori

Ymgynghorodd uwch dîm arwain yr ysgol â staff dros gyfnod o 16 mis. Cafodd 22 fersiwn o'r amserlen newydd eu hystyried i gyd. Dosbarthwyd arolwg ar-lein ac arolwg ysgrifenedig, a chysylltwyd â llywodraethwyr, disgyblion, yr awdurdod lleol a chynrychiolwyr y consortiwm rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a'r undebau llafur a'u briffio'n llawn. Cynhaliwyd noson agored i rieni a rhannodd Mr Jones ei gynlluniau ag ysgolion cynradd lleol. Iddo ef, roedd yr ymgynghoriad â'r holl randdeiliaid yn rhan bwysig iawn o'r broses.

**'Canfyddais mai dim ond chwe wythnos o rybudd oedd rhaid i mi ei roi i newid diwrnod yr ysgol mewn statud… ond byddai hynny wedi bod yn ffôl iawn gan y byddwn i wedi colli pawb o'r cychwyn cyntaf.'**

Cafodd y broses ymgynghori ei hoedi a'i chychwyn ar adegau allweddol o'r flwyddyn ysgol (e.e. tymor arholiadau), er mwyn peidio â thynnu sylw'r staff oddi ar eu hymrwymiadau pwysig yn yr ystafell ddosbarth, Felly, cafwyd cydnabyddiaeth na fyddai'r newid yn digwydd dros nos, ac y byddai angen amser ac ystyriaeth briodol. Roedd Mr Jones yn awyddus i nodi y byddai manteision pendant yr wythnos anghymesur yn cymryd amser i ddod i'r amlwg.

**'Roedd y broses ymgynghori yn anodd braidd, ond fe wnaeth gwneud llawer o ymdrech ac ymgynghori am gymaint o amser gyda chymaint o bobl ddileu llawer o'r rhwystrau.'**

## Lles a datblygiad staff

Nid oedd gofyn newid contractau gweithio staff addysgu, er bod contractau staff cymorth wedi'u haddasu i ystyried yr amser ychwanegol a dreulir yn yr ysgol. Mae hyn wedi golygu bod yr aelodau hyn yn well eu byd yn ariannol o dan y trefniadau newydd.

Canfu rhai athrawon bod symud o bum i chwe gwers y dydd, a'r amser gorffen estynedig, yn flinedig. Cafwyd pryderon hefyd am lwyth gwaith a'r heriau ymarferol o gael mwy o wersi mewn wythnos ysgol. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd Mr Jones ei fod yn ystyried newidiadau pellach i'r amserlen ysgol, o ystyried bod addysgu chwe gwers y dydd yn ymddangos yn rhwystr i rai athrawon. Nododd y byddai unrhyw addasiadau'n seiliedig ar adborth gan staff a disgyblion.

Dywedodd Mr Jones fod y staff wedi mwynhau'r rhyddid bob pythefnos i wneud beth a fynnent ar brynhawn Gwener. Roedd rhai'n mynd i'r gampfa, yn gadael am benwythnos hir i ffwrdd, yn gwneud eu siopa bwyd i'r teulu am yr wythnos, neu'n casglu eu plant o'r ysgol. Roedd eraill yn defnyddio'r amser i gwblhau unrhyw waith ysgol oedd heb ei wneud cyn y penwythnos. Un o'r manteision mwyaf, fodd bynnag, oedd rhoi cyfle i gynnal cyfarfodydd staff cyfan a chyfarfodydd adrannol yn ystod y diwrnod ysgol, ac nid ar ôl ysgol fel ag o'r blaen. Yn ôl Mr Jones, roedd hyn wedi sicrhau bod sesiynau dysgu proffesiynol dydd Gwener yn cael eu defnyddio'n well a bod y cyfarfodydd eu hunain wedi'u trefnu'n well ac yn fwy gwerthfawr. Felly, yn ogystal ag elwa ar fwy o amser ar brynhawn Gwener, dywedodd Mr Jones fod athrawon yn elwa hefyd drwy orfod treulio llai o amser ar y safle ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos.

Mae cyfleoedd i gydweithio ymysg y staff wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r wythnos anghymesur. O'r blaen, dywedodd Mr Jones fod athrawon wedi bod mor brysur yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain, nad oedd ganddynt gyfle i gyfarfod â chydweithwyr yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae cydweithio o fewn adrannau'n gryfach ar hyn o bryd na chydweithio sydd i'w weld rhwng adrannau.

### Manteision i ddisgyblion

Mae'n anodd dweud pa effaith mae'r wythnos anghymesur wedi'i chael ar berfformiad disgyblion. Fodd bynnag, roedd yr ysgol yn rhagweld ei chanlyniadau TGAU gorau erioed cyn pandemig COVID-19 a gorfod canslo arholiadau wedyn. Mae Mr Jones yn hyderus bod y trefniadau newydd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion, a'u datblygiad fel dysgwyr mwy annibynnol. Mae disgyblion yn dysgu sgiliau newydd na fyddent wedi'u dysgu fel arall, ac mae cyflwyno amser bugeiliol mwy strwythuredig wedi gwella eu llesiant cyffredinol.

**'Mae'r ddau beth yna'n troi'n fanteision yn syth i'r staff hefyd, oherwydd os yw disgyblion yn hapus i fod yn yr ysgol ac yn hapus i weithio, fe fyddan nhw'n fwy tebygol o weithio gyda'r staff.'**

Yn ogystal â'r amser cyswllt ychwanegol gyda'u hyfforddwyr dysgu, mae'r sesiynau Paratoi yn sicrhau bod y disgyblion hynny sydd heb le tawel addas i weithio gartref, yn cael cyfle i weithio mewn amgylchedd gweithio mwy priodol yn ystod oriau ysgol.

### Rhannu profiadau

Mae Treorci wedi rhannu ei model wythnos anghymesur gydag ysgolion lleol. Mae wedi rhannu beth mae wedi'i ddysgu gyda chydweithwyr mewn ysgolion ymhellach i ffwrdd hefyd, yn Sir Benfro ac Abertawe. Yn ogystal ag arweinwyr ysgol eraill, mae cynghorwyr blaenllaw i Lywodraeth Cymru wedi ymweld â'r ysgol. Dywedodd Mr Jones y byddai'n argymell yn llwyr i ysgolion ystyried yr wythnos anghymesur, a phe bai mwy o ysgolion yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio byddai'n haws ystyried arferion traws-gyfnodau a thraws-adrannau. Ymhellach, dadleuodd y byddai'n haws wrth ryddhau staff ar gyfer gweithdai dysgu proffesiynol a digwyddiadau a gynhelir ar lefel ranbarthol neu genedlaethol. Mae Mr Jones yn hyderus hefyd bod y newid i wythnos anghymesur wedi helpu i baratoi ei staff yn well ar gyfer gofynion y *Cwricwlwm newydd i Gymru.*

**'Rydym wedi gorfod newid meddylfryd… o ganolbwyntio mwy ar strwythurau a systemau presennol, mae pobl wedi gorfod bod yn greadigol a mwy agored i bosibiliadau newydd. Roedd yn golygu bod y meddylfryd cywir gennym wrth gychwyn gwaith ar y cwricwlwm newydd - ac mae'r un bobl yn llwyddo i'w ddatblygu'n dda iawn.'**

## b) Prif ganfyddiadau'r arolwg: Staff

Datblygwyd arolwg gan ddefnyddio adnodd arolwg Qualtrics a'i ddosbarthu i holl staff Ysgol Gyfun Treorci drwy e-bost, i'w gwblhau yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2020. Cyflwynir canlyniadau canfyddiadau'r arolwg mewn graffiau a chyfran yr ymatebion fel canran, er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Mae canrannau wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100. I gefnogi hygyrchedd, mae geiriad rhai cwestiynau ac eitemau yn yr arolwg wedi'u talfyrru. Mae'n bwysig nodi bod pawb yn y sampl a nodwyd wedi cyflwyno eu harolwg i'w ystyried ond nad oedd pob cyfranogwr wedi cwblhau pob cwestiwn; nodir hyn yn glir yn y tudalennau nesaf.

### Nodweddion ymatebwyr

Yn ystod y broses o gasglu'r data, ymatebodd 67 o staff o Ysgol Gyfun Treorci (n=67) i'r arolwg ar-lein. O'r rhain, roedd 42 (63%) yn fenywod a 25 (37%) yn ddynion. Roedd y mwyafrif (69%) rhwng 30-50 oed, gyda 9% yn 51 oed a throsodd, a 22% arall o dan 30 oed. Yn ogystal â'u rhywedd a'u hoedran, gofynnwyd dau gwestiwn cychwynnol arall i'r staff am eu rolau a'u gyrfaoedd yn yr ysgol.

Nododd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr (73%) eu bod yn staff addysgu, gyda 15% arall yn aelodau o'r uwch dîm arwain. Cymerodd staff cymorth yr ysgol ran hefyd ac roeddynt yn 9% o gyfanswm yr ymatebwyr, fel y nodir yn Ffigur 29 isod.

Fel yr amlinellir yn Ffigur 30, roedd cyfran uchel o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg wedi bod yn yr ysgol am gyfnod cymharol fyr, gyda 38% wedi gweithio yno am bum mlynedd neu lai. Roedd 20% arall wedi bod yn yr ysgol rhwng chwech a deng mlynedd, tra bod 38% wedi treulio 11-20 yn Ysgol Gyfun Treorci. Dim ond 5% o ymatebwyr oedd â mwy na dau ddegawd o brofiad yn yr ysgol.


### Effaith ar staff

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am effaith newid i'r wythnos anghymesur arnynt fel staff. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag effaith gweithio dyddiau ysgol hirach, gyda chyfnodau egwyl byrrach ac amser gorffen hwyrach, bedwar diwrnod yr wythnos, ac i ba raddau roeddynt yn gallu ymdopi â hyn. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 31 isod.

Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn gallu ymdopi â'r dyddiau ysgol hirach yn 'llawer gwell' neu 'ychydig yn well' (4%) nag ymdopi â'r hen drefniadau. Roedd y mwyafrif llethol yn teimlo bod y trefniadau newydd naill ai 'ychydig yn waeth' neu'n 'llawer gwaeth' i ymdopi â nhw (74%), gyda thua un o bob pump (21%) yn dweud eu bod 'tua'r un fath' â'r hen ffyrdd o weithio. Mae'r ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod mwy na saith o bob 10 aelod o staff yn gweld y dyddiau ysgol hirach yn anoddach i ymdopi â nhw na'r dyddiau ysgol arferol yr oedden nhw wedi arfer â nhw.


Gan gydnabod y gallai fod yna nifer o resymau am y data a gasglwyd yn Ffigur 31, gofynnwyd i staff a oedd yna

### Ffigur 29 - Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch rôl orau?





*Atebodd 67 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

### Ffigur 30 - Am faint o amser ydych chi wedi gweithio yn yr ysgol?




*Atebodd 66 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

### Ffigur 31 - Pa mor hawdd oedd ymdopi â'r dyddiau ysgol hirach, a gyflwynwyd yn sgil yr wythnos anghymesur?




*Atebodd 67 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

ffactorau penodol sy'n berthnasol i'r wythnos anghymesur a oedd wedi bod yn heriol iddyn nhw. Roedd hyn yn seiliedig ar yr anhawster yr oedd rhai rhieni mewn cyd-destunau eraill yn ei gael i sicrhau trefniadau gofal plant addas, trafnidiaeth ysgol a gweithgareddau allgyrsiol (ar gyfer prynhawn Gwener yn fwyaf arbennig yn yr achos hwn). Mae'r ffigur isod yn darparu'r canlyniadau.

Mae Ffigur 32 yn awgrymu bod mwy o staff yn teimlo bod trefnu gofal plant, trafnidiaeth ysgol a gweithgareddau allgyrsiol yn gymharol syml ers symud i wythnos anghymesur nag oedd yn teimlo fel arall. Roedd dros wyth o bob 10 (83% o 18 o ymatebwyr) yn credu bod trefnu trafnidiaeth ysgol 'ddim yn heriol o gwbl', gyda dim ond 11% yn ei ystyried yn 'eithriadol o heriol' neu'n 'heriol iawn'. Roedd 42% o 36 o ymatebwyr yn ystyried bod trefnu gweithgareddau allgyrsiol 'ddim yn heriol o gwbl', tra bod chwarter (25%) yn ei weld yn 'eithriadol o heriol' neu'n 'heriol iawn'. Dywedodd 33% fod trefnu gweithgareddau allgyrsiol naill ai'n 'weddol heriol' neu 'ychydig yn heriol'.


Roedd cyfran fwy yn cael trafferth cael gafael ar ofal plant, gyda 40% (o 30 o ymatebwyr) yn ei chael hi'n 'weddol heriol' neu 'ychydig yn heriol'. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (43%) yn credu bod gwneud trefniadau gofal plant newydd ar gyfer yr wythnos anghymesur newydd 'ddim yn heriol' o gwbl. Roedd cyfran lai (17%) yn teimlo bod gofal plant yn 'eithriadol o heriol' neu'n 'heriol iawn'.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion hyn yn cyflwyno darlun cadarnhaol ar y cyfan o'r gofynion ychwanegol ar staff mewn perthynas â'u cyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith, er bod rhai heriau wedi bod. Mae'r ffigurau'n awgrymu bod ymatebwyr wedi ymdopi'n eithaf da â rhai o'r newidiadau ymarferol mwy amlwg a oedd yn deillio o'r wythnos anghymesur, gan alluogi staff i ganolbwyntio mwy o egni ar weithgareddau yn yr ysgol. Trefnu gweithgareddau allgyrsiol fu'r broblem fwyaf i staff, er mai dim ond lleiafrif oedd yn gweld pob eitem yn 'eithriadol o heriol' neu'n 'heriol iawn'. Roedd trafnidiaeth ysgol yn llai o bryder i'r staff, tra bod trefnu gofal plant yn fwy o her i rai nag eraill.

Mae Ffigur 33 yn allweddol i ffocysau'r ymchwil gan ei fod yn ymwneud yn benodol iawn ag effaith yr wythnos anghymesur ar yr ymatebwyr eu hunain. Gofynnwyd i staff a oedd addasiadau'r wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad proffesiynol, llwyth gwaith, iechyd a lles meddyliol, bywyd teuluol/cartref, addysgu a morâl. Ni atebodd yr holl ymatebwyr bob eitem, er bod cyfraddau ymateb yn uchel gan mwyaf.


Mae'r canlyniadau, fel y'u dangosir yn Ffigur 33, yn cyflwyno darlun negyddol ar y cyfan o effaith yr wythnos anghymesur ar ymatebwyr, o ran bod y mwyafrif ohonynt naill ai'n 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod newidiadau wedi cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o agweddau ar eu bywydau proffesiynol a phersonol. Mae'n ymddangos mai datblygiad proffesiynol y staff oedd yr agwedd fwyaf addawol, gyda 27% o 60 o ymatebwyr yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd 37% arall yn

**Ffigur 32 - Ers symud i'r wythnos anghymesur, i ba raddau mae trefnu'r canlynol wedi bod yn heriol i chi:**




*Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio, o 18 i 36*

**Ffigur 33 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar eich:**




*Roedd cyfradd ateb y cwestiwn hwn yn amrywio, o 60 i 62*

'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad proffesiynol. Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod eu llwyth gwaith (74% o 62 o staff), morâl (71% o 62 o staff) ac iechyd a lles meddyliol (68% o 62 o ymatebwyr) wedi cael eu heffeithio'n gadarnhaol yn uchel, tra bod y mwyafrif yn teimlo'r un fath am eu bywyd teuluol/cartref (55% o 64) ac addysgu (57% o 61).

Mae effaith yr wythnos anghymesur ar fywyd teuluol/cartref ymatebwyr yn awgrymu bod rhai manteision wedi bod i staff, gyda thua chwarter (23%) yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod y newidiadau wedi dod â newidiadau cadarnhaol. Roedd 23% arall 'ddim yn cytuno nac anghytuno' â'r teimlad.

Yn dilyn ymlaen o Ffigur 34, gwahoddwyd staff i sgorio'r agweddau mwyaf a lleiaf buddiol yr wythnos anghymesur. Roedd mwyafrif (58%) yr ymatebwyr yn teimlo mai cael mwy o amser ar gyfer dysgu proffesiynol oedd canlyniad mwyaf buddiol y newid i'r trefniadau newydd, tra bod cael mwy o amser hamdden yn cael ei ystyried y lleiaf buddiol (30%). Roedd cael mwy o amser gartref/gyda'r teulu yn cael ei ystyried yn ddatblygiad pwysig hefyd, tra bod iechyd a lles meddyliol gwell yn llai pwysig.


Gyda'i gilydd, mae'r data a gyflwynir yn ffigurau 33 a 34 yn awgrymu mai cyfleoedd ar gyfer mwy o ddysgu proffesiynol sydd wedi bod o werth mwyaf i staff, yn dilyn cyflwyno'r wythnos anghymesur. I'r gwrthwyneb, mae'n ymddangos bod staff wedi elwa llai o ran iechyd a lles meddyliol. Roedd ymatebwyr yn ystyried hefyd bod 'mwy o amser hamdden' yn llai buddiol o gymharu ag agweddau eraill a oedd yn deillio o fabwysiadu'r wythnos anghymesur.

## Effaith ar ddisgyblion

Yn ogystal ag effaith yr wythnos anghymesur ar eu hunain fel staff, gofynnwyd i'r ymatebwyr am effaith y trefniadau newydd ar ddisgyblion. Gan weithio ar y dybiaeth bod gan staff yr ysgol ddealltwriaeth dda o ddyheadau ac anghenion disgyblion, gofynnwyd iddynt ystyried i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu, iechyd a lles meddyliol, llwyth gwaith, presenoldeb ac ymddygiad y disgyblion. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 35 isod.


Mae Ffigur 35 yn cyflwyno darlun siomedig, gyda mwy o ymatebwyr yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar y disgyblion yn erbyn yr holl ddangosyddion allweddol nag oedd yn credu fel arall. Mae effaith yr wythnos anghymesur ar ymddygiad disgyblion sy'n ymddangos fwyaf pendant, gyda 80% (o 61 o ymatebwyr) yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod yna effaith gadarnhaol wedi bod, o gymharu â dim ond 12% a oedd yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf'. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn teimlo nad oedd y newidiadau wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion (66% o 61 o staff) ac iechyd a lles meddyliol (62% o 61 staff) ychwaith.

### Ffigur 34 - Sgoriwch fanteision yr wythnos anghymesur yn eu trefn, gydag 1 yn fwyaf buddiol a 5 yn lleiaf buddiol:




*Atebodd 53 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

### Ffigur 35 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion o ran y canlynol:




*Roedd cyfradd ateb y cwestiwn hwn yn amrywio, o 59 i 61*

Roedd dehongliad yr ymatebwyr o effaith yr wythnos anghymesur ar lwyth gwaith a phresenoldeb y disgyblion yn fwy cymysg, er bod bron i hanner (48% o 61 o staff) yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' ei fod wedi effeithio'n gadarnhaol ar lwyth gwaith, o gymharu â 18% a oedd yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' ei fod wedi effeithio'n gadarnhaol. Roedd 34% arall 'ddim yn cytuno nac anghytuno' mai dyma oedd yr achos. A thra bod mwy na hanner (53% o 59 o ymatebwyr) yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar bresenoldeb, nid oedd gan bron i bedwar o bob 10 (37%) deimladau cryf y naill ffordd na'r llall.

Mae'r data a gyflwynir yn Ffigur 35 yn peri rhywfaint o bryder, gan ei fod yn awgrymu nad yw mwyafrif y staff yn argyhoeddedig bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth o agweddau sy'n berthnasol i ddisgyblion. Mae hwn yn arsylwad pwysig, er nad yw'r graddau y mae staff yn credu bod y newidiadau anghymesur wedi cael effaith *negyddol* yn glir.

## Effaith ar yr ysgol


Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr yn ymwneud ag effaith newid i'r wythnos anghymesur ar eu hysgol, ac ysgolion yn fwy cyffredinol. Mae'r cyntaf yn cyflwyno barn gyffredinol o effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gyfun Treorci. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 36 isod.

Mae Ffigur 36 yn cyflwyno darlun negyddol yn gyffredinol o effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gyfun Treorci. Yn gyffredinol, roedd 62% o ymatebwyr yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol, gyda dim ond 13% yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf'. Ar ddau ben y sbectrwm, roedd 34% yn 'anghytuno'n gryf' a dim ond 1% yn 'cytuno'n gryf' bod newid i'r wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar yr ysgol. Y prif gasgliad yw nad yw'r newid i'r wythnos anghymesur wedi bod yn brofiad cadarnhaol i'r ysgol i raddau helaeth, yn ôl y staff.

Yn sgil y manteision canfyddedig i ddysgu proffesiynol sy'n deillio o'r trefniadau anghymesur, gwahoddwyd staff i ystyried i ba raddau mae cydweithio yn eu hysgol a rhwng ysgolion wedi gwella ers gweithredu'r strwythurau newydd. Fel y cyflwynir yn Ffigur 37, roedd 31% o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd 'dim gwahaniaeth' yn y lefel o gydweithio *o fewn* Ysgol Gyfun Treorci yn sgil y cyfleoedd dysgu proffesiynol newydd a ddaeth gyda'r wythnos anghymesur. Roedd 26% arall yn teimlo bod cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol wedi cefnogi cydweithio o fewn yr ysgol 'ychydig', gyda thua un o bob pump (21%) yn dweud 'dim o gwbl'.


Mae'r data'n dangos bod 21% o ymatebwyr yn credu bod yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio 'llawer' o leiaf o fewn yr ysgol. Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion i Ffigur 37 yn awgrymu bod tua hanner y staff yn teimlo bod cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol wedi cefnogi cydweithio mewnol, tra bod yr hanner arall yn credu fel arall.

**Ffigur 36 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod penderfyniad yr ysgol i newid i wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol?**




*Atebodd 67 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 37 - I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol sydd wedi'u creu gan yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio o fewn yr ysgol?**




*Atebodd 61 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Mae Ffigur 38, isod, yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff (37%) yn teimlo nad oedd y cyfleoedd dysgu proffesiynol newydd a ddaeth yn sgil yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio *rhwng* ysgolion o gwbl, tra bod nifer tebyg (35%) yn teimlo nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth y gellir sylwi arno. Dywedodd tua un o bob 10 ymatebydd (12%) fod yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio rhwng ysgolion 'llawer' o leiaf, drwy ei gyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol, gyda 17% arall yn teimlo ei fod wedi gwneud 'ychydig' o wahaniaeth.

Mae Ffigurau 37 a 38 yn awgrymu bod yr wythnos anghymesur newydd wedi cyflwyno cyfleoedd cyfyngedig am gydweithio gwell o fewn a rhwng ysgolion, o ganlyniad i'r cynnig dysgu proffesiynol newydd, yn ôl y staff.

Yn y rhan nesaf o'r arolwg, gofynnwyd dau gwestiwn i'r staff gyda'r bwriad o gefnogi ysgolion eraill sy'n ystyried cyflwyno trefniadau anghymesur. Roedd y cyntaf, a gyflwynir yn Ffigur 39, yn gwahodd ymatebwyr i osod pum her bosibl i fabwysiadu wythnos anghymesur yn eu trefn.

Dewiswyd yr heriau ar sail cyfraniadau arweinwyr y ddwy ysgol yn ystod y broses gyfweld, a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod adolygiad llenyddiaeth cyd-destunol yr adroddiad. Felly, gofynnwyd i'r staff pa un o'r pum her ganlynol i gyflwyno wythnos anghymesur a oedd yn fwyaf heriol:

- Newid meddylfryd y staff;
- Cael cefnogaeth cymuned yr ysgol;
- Trefnu gofal plant;
- Cytuno ar amserlen newydd;
- Paratoi ar gyfer trefniadau newydd.


Mae'r ddau gyntaf ar y rhestr (newid meddylfryd y staff a chael cefnogaeth gan gymuned yr ysgol) yn seiliedig ar ryngweithiadau cymdeithasol y staff a newid diwylliant yn bennaf, tra bod y tri olaf yn ymwneud yn fwy penodol â'r trefniadau ymarferol a logistaidd sy'n ofynnol i newid o strwythur mwy traddodiadol i wythnos anghymesur.

Yn gyffredinol, roedd staff yn ystyried mai newid meddylfryd staff oedd agwedd fwyaf heriol cyflwyno wythnos anghymesur, gyda 43% yn nodi hyn. Roedd cytuno ar amserlen newydd yn cael ei ystyried yn her fwy sylweddol hefyd, gyda 26% yn ei nodi fel yr her fwyaf heriol a 26% arall yn ei nodi fel yr ail fwyaf heriol.

Trefnu gofal plant oedd y lleiaf problematig i staff o bell ffordd, gyda 57% yn ei osod yn bumed allan o bump a 15% yn ei osod yn bedwerydd allan o bump. Roedd paratoi ar gyfer trefniadau newydd a chael cefnogaeth cymuned yr ysgol wedi'u gwasgaru'n fwy cyfartal ar draws yr ystod o heriau.


Mae Ffigur 39 yn ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi syniad i ysgolion sydd mewn cyd-destunau tebyg o ba agweddau ar fywyd ysgol y bydd rhaid iddynt eu blaenoriaethu mae'n debyg wrth fabwysiadu wythnos anghymesur, a graddau'r her a gyflwynir gan rai eitemau. Er enghraifft, byddai data a

**Ffigur 38 - I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu proffesiynol sydd wedi'u creu gan yr wythnos anghymesur wedi cefnogi cydweithio rhwng ysgolion?**




*Atebodd 60 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 39 - Rhowch yr heriau canlynol i gyflwyno wythnos anghymesur yn eu trefn, gyda 1 y mwyaf heriol a 5 y lleiaf heriol:**




*Atebodd 53 y cwestiwn hwn*


gyflwynir yn Ffigur 39 yn awgrymu y gallai ysgolion dreulio mwy o amser yn ceisio cael cefnogaeth gan gymuned yr ysgol, nac yn canolbwyntio ar broblemau posibl yn ymwneud â threfniadau gofal plant.

Mae gan Ffigur 40, isod, ddiddordeb yn y ffactorau sydd bwysicaf i weithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus.

Mae amrediad y data a gyflwynir yn Ffigur 40 yn ymddangos yn fwy amrywiol na'r hyn a gyflwynir yn Ffigur 39, gyda chyfran fwy o ymatebwyr yn nodi bod arweiniad cryf (42%) a chymorth staff (33%) yn allweddol i weithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus. Mae'r ddau faes yn sgorio'n uchel o ran pwysigrwydd. I'r gwrthwyneb, roedd cael cefnogaeth y gymuned ysgol gyfan (35%) a datblygu dealltwriaeth rhieni/disgyblion (31%) yn cael eu hystyried fel y ffactorau lleiaf pwysig ar gyfer gweithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus. Y duedd ar gyfer y ddau faes hyn yw o 'lleiaf pwysig ' i 'pwysicaf'.

Mae'n ymddangos bod yna rywfaint o ansicrwydd am bwysigrwydd amser i weithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus, gyda bron cymaint yn ei ystyried i fod bwysicaf (18%) ag sydd yn ei ystyried i fod y lleiaf pwysig (25%). Yn wir, gosododd 43% amser yn gyntaf neu'n ail, tra bod 40% wedi'i osod yn bedwerydd neu bumed.


**Ffigur 40 - Beth yw'r ffactorau pwysicaf sydd eu hangen i weithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus? (lle mae 1 yw'r pwysicaf a 5 y lleiaf pwysig)**




*Atebodd 55 y cwestiwn hwn*

Mae Ffigur 41, isod, yn gymharol syml gan ei fod yn gofyn i ymatebwyr a fyddent yn argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru, yn sgil eu profiadau. Roedd yr ymateb yn negyddol ar y cyfan, gyda 49% yn dweud na fyddent yn bendant, a 25% arall yn dweud na fyddent mae'n debyg. Yn gyffredinol, dim ond 18% a ddywedodd 'byddwn yn bendant' neu 'mae'n debygol' o ran a fyddent yn argymell yr wythnos anghymesur i eraill.

**Ffigur 41 - A fyddech chi'n argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru?**




*Atebodd 59 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Yn ogystal, gofynnwyd i'r staff ymateb i gwestiwn penagored, yn gofyn iddynt nodi 'beth ellid fod wedi'i wneud yn wahanol i wneud y newid i wythnos anghymesur yn fwy effeithiol?' Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau, gyda rhai'n pryderu am lefel yr ymgynghori â staff ac effaith dyddiau ysgol hirach ar lwyth gwaith. Ar y llaw arall, roedd yna deimlad o foddhad na ellid fod wedi gwella unrhyw beth mewn rhai o'r ymatebion a gyflwynwyd, er bod cyflymder y newid yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. Awgrymodd un aelod o staff y gallai cyfnod prawf fod wedi bod yn fuddiol er mwyn deall a datrys problemau posibl yn well. Roedd sylwadau eraill yn ymwneud ag amserlenni ac ymgynghori â staff yn cynnwys:

**'Mae egwyddor wythnos anghymesur yn apelgar o'i wneud yn iawn. Dyw ymestyn diwrnod yr ysgol 20 munud ddim yn swnio'n llawer, ond mae ganddo oblygiadau mawr. Mae staff a disgyblion wedi blino ac felly mae'n anodd addysgu a chael y disgyblion i gymryd rhan yn anodd iawn yn y ddwy sesiwn ar ôl cinio.'**

**‘Dylid fod wedi cael cyfnod prawf gyda phosibilrwydd o ddychwelyd i’r amserlen gychwynnol os oedd staff yn anhapus.’**

**‘Mae gweithredu dros amserlen hirach yn rhoi cyfle i ymgorffori pethau’n llawn, a chyfleoedd i ymgynghori ar ôl pob cam o’r newid.’**

Ar y cyfan, roedd yr atebion i’r cwestiwn yn adeiladol, er bod rhai ymatebwyr yn awgrymu na ddylid fod wedi cyflwyno’r wythnos anghymesur o gwbl.

## Goblygiadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru

Roedd gan yr adran hon ddiddordeb yn y berthynas bosibl rhwng trefniadau anghymesur a’r *Cwricwlwm newydd i Gymru.* Gobeithio y bydd y data a gyflwynir yn yr adran hon yn datblygu syniadau am ad-drefnu addysg i ddiwallu anghenion y cwricwlwm newydd, ac i hysbysu addasiadau posibl i arferion mwy sefydledig yr ystafell ddosbarth yn well er lles gorau’r system addysg yn fwy cyffredinol.


Yn gyntaf oll, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau roedd symud i wythnos anghymesur wedi cynyddu eu cyfleoedd i ystyried goblygiadau'r *Cwricwlwm newydd i Gymru.* Cynlluniwyd y cwestiwn hwn ar y sail bod trefniadau amserlennu newydd wedi creu cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol, a nodwyd gan benaethiaid fel rhywbeth a oedd yn ddefnyddiol i ddatblygu dealltwriaeth o’r cwricwlwm newydd a diwygiadau addysgol ehangach. Felly, wedi ystyried barn y ddau bennaeth, byddai’n ddiddorol gweld pa effaith oedd y trefniadau anghymesur wedi’i chael ar baratoadau staff ar gyfer y *Cwricwlwm i Gymru* os o gwbl.

Fel y cyflwynir yn Ffigur 42, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (43%) yn teimlo bod symud i wythnos anghymesur wedi cynyddu eu cyfleoedd i ystyried goblygiadau’r *Cwricwlwm newydd i Gymru* i ryw raddau. Yn fwy penodol, roedd 22% yn ystyried ei fod wedi cynyddu cyfleoedd ‘ychydig’, 12% ‘llawer iawn’ a 9% ‘llawer’. Dywedodd tua thraean o’r staff (34%) bod ‘dim gwahaniaeth’ wedi bod yn y cyfleoedd a grëwyd i ystyried y cwricwlwm o ganlyniad i newid i’r wythnos anghymesur, tra bod cyfanswm o 22% o staff yn dweud na chafodd effaith o gwbl.

Os oedd Ffigur 42 yn ystyried effaith *wirioneddol* yr wythnos anghymesur ar eu hystyriaeth o’r cwricwlwm newydd a’u hadnabyddiaeth ohono, mae Ffigur 43 yn cyflwyno portread mwy damcaniaethol o farn ymatebwyr ar fudd yr wythnos anghymesur. Yn gyffredinol, ymatebodd 60 o aelodau staff i’r cwestiwn a oedd symud i wythnos anghymesur o fudd i weithredu’r *Cwricwlwm i Gymru.*

Mae’r canfyddiadau’n negyddol yn gyffredinol, ac yn awgrymu bod mwyafrif y staff yn credu bod yr wythnos anghymesur yn annhebygol o fod yn fuddiol i weithredu’r cwricwlwm. Fel y gwelir yn Ffigur 43, dim ond 7% o

**Ffigur 42 - I ba raddau mae symud i wythnos anghymesur wedi cynyddu'ch cyfleoedd i ystyried goblygiadau'r Cwricwlwm newydd i Gymru?**




*Atebodd 58 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

ymatebwyr a ddywedodd fod yna gydberthynas bendant rhwng y ddau, tra bod 8% arall yn credu y byddai'r wythnos anghymesur yn fuddiol 'mae'n debyg'. Roedd y gyfran uchaf o'r staff (38%) yn credu'n bendant na fyddai'r trefniadau anghymesur yn fuddiol i weithredu'r cwricwlwm newydd, tra bod 22% yn dweud na fyddai'n fuddiol mae'n debyg. Nid oedd chwarter (25%) yn siŵr pa wahaniaeth fyddai'r wythnos anghymesur yn ei wneud i'r cwricwlwm newydd

## Effaith COVID-19

Daeth yr arolwg i ben gyda chwestiwn amserol, yn ymwneud yn benodol ag effaith COVID-19 ar addysg yng Nghymru ac ymateb y system i'r pandemig. Gofynnwyd i staff, o ystyried natur ddigynsail y sefyllfa gyfredol a'r tebygolrwydd o newidiadau sylweddol o'n blaenau, i ba raddau roeddynt yn credu y byddai gweithredu wythnos anghymesur yn fuddiol wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cau gorfodol. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 44, isod.

O'r 55 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 5% yn teimlo y byddai'r wythnos anghymesur yn 'ddefnyddiol iawn' wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl pandemig COVID-19. Roedd 16% yn credu y byddai'n 'gymharol ddefnyddiol', tra bod 29% ddim yn siŵr. Roedd tua thraean o staff (33%) yn teimlo na fyddai'r wythnos anghymesur yn ddefnyddiol o gwbl i ysgolion ar ôl y pandemig.


Roedd sylwadau cyffredinol eraill a wahoddwyd ar ddiwedd yr arolwg yn cynnwys nifer yn mynegi pryder bod ymddygiad disgyblion yn fwy heriol yn sgil yr wythnos anghymesur a'i dyddiau hirach:

**'Er bod yr wythnos anghymesur yn adnodd da ar gyfer caniatáu amser hyfforddi a chyfarfod i staff ar brynhawn Gwener, mae gofynion diwrnod chwe gwers wedi cael effaith negyddol ar ein hysgol.'**

**'Pe byddai modd newid yr wythnos anghymesur mewn unrhyw ffordd, fe fyddai'n well gen i gael pum gwers yn lle chwe gwers y diwrnod.'**


**'Mae ymddygiad, ymgysylltiad a chynnydd disgyblion yn waeth yn y sesiynau prynhawn hirach nag oedden nhw o'r blaen. Dyddiau byrrach, craffach, gyda mwy academaidd yw'r ffordd ymlaen.'**

**Ffigur 43 - Ydych chi'n meddwl y byddai symud i wythnos anghymesur yn fuddiol i weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru?**




*Atebodd 60 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 44 - Pa mor ddefnyddiol fydd gweithredu wythnos anghymesur wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl panemdig COVID-19?**




*Atebodd 55 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**'Mae wythnos anghymesur yn syniad da yn ddamcaniaethol ac wedi helpu i allu trefnu cyfarfodydd adrannol a dysgu proffesiynol. Ond wrth fyrhau'r diwrnod unwaith yr wythnos mae wedi arwain at ymestyn y diwrnod bedair gwaith yr wythnos. Mae'r 20 munud ychwanegol hwn bob dydd yn gwneud cyfanswm o bythefnos arall o waith bob blwyddyn.'**

## c) Prif ganfyddiadau'r arolwg: Disgyblion

Datblygwyd arolwg byr gan ddefnyddio adnodd arolwg Qualtrics a'i ddosbarthu i fwyafrif disgyblion Ysgol Gyfun Treorci drwy e-bost, i'w gwblhau yn ystod mis Awst a mis Medi 2020. Cyflwynir canlyniadau canfyddiadau'r arolwg mewn graffiau a chyfran yr ymatebion fel canran, er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Mae canrannau wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100. I gefnogi hygyrchedd, mae geiriad rhai cwestiynau ac eitemau yn yr arolwg wedi'u talfyrru. Mae'n bwysig nodi bod pawb yn y sampl a nodwyd wedi cyflwyno eu harolwg i'w ystyried ond nad oedd pob cyfranogwr wedi cwblhau pob cwestiwn; nodir hyn yn glir yn y tudalennau nesaf. Cymerwyd camau i sicrhau bod yr arolwg yn hygyrch i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn o'r ysgol.

### Nodweddion ymatebwyr

Yn ystod y gwaith o gasglu data, ymatebodd 30 disgybl o Ysgol Gyfun Treorci (n=30) i'r arolwg ar-lein. O'r rhain, roedd 20 (67%) yn ferched a 10 (33%) yn fechgyn. Roedd mwyafrif y disgyblion ym mlwyddyn 11 neu 12 (22% yr un), er bod yna gynrychiolaeth o bob un o'r saith grŵp blwyddyn uwchradd.

### Effaith ar ddisgyblion

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am effaith newid i'r wythnos anghymesur arnynt fel disgyblion. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag effaith gweithio dyddiau ysgol hirach, gyda chyfnodau egwyl byrrach ac amser gorffen hwyrach, bedwar diwrnod yr wythnos, ac i ba raddau roeddynt yn gallu ymdopi â hyn. Mae'r canlyniadau wedi'u cyflwyno yn Ffigur 45 isod.


Ychydig iawn o'r ymatebwyr oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â dyddiau ysgol hirach gan ddweud eu bod yn 'wael' neu'n 'wael iawn' (6%). Roedd y rhan fwyaf (50%) yn dweud bod y trefniadau newydd yn 'ddim gwahanol' tra bod 43% yn dweud bod cael diwrnod ysgol hirach yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Mae'r ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu nad oedd y mwyafrif llethol o ddisgyblion yn gweld y dyddiau ysgol hirach yn anoddach i ymdopi â nhw na'r dyddiau ysgol arferol yr oeddynt wedi arfer â nhw.

Yn dilyn ymlaen o ffigur 45, gofynnwyd i ddisgyblion a oedd yr amserlen ysgol newydd wedi bod yn beth da neu wael. Mae'r canlyniadau, a gyflwynir isod yn Ffigur 46, yn eithaf pendant.

Fel y nodir yn Ffigur 46, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (75%) yn teimlo bod yr amserlen ysgol newydd wedi bod yn beth 'da', tra bod 18% 'ddim yn siŵr'. Dim ond 7% o'r disgyblion a oedd yn credu bod y trefniadau newydd wedi bod yn 'wael'.


Roedd gennym ddiddordeb ym marn y disgyblion am orffen yn gynnar ar brynhawn Gwener, yn arbennig, felly gofynnwyd iddynt ystyried i ba raddau roeddynt yn edrych ymlaen at orffen yr wythnos ysgol yn gynt. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 47, isod.

**Ffigur 45 - Sut beth yw cael dyddiau ysgol hirach o ddydd Llun i ddydd Iau?**





*Atebodd 30 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 46 - Ydych chi'n credu bod yr amserlen ysgol newydd (gyda dyddiau ysgol hirach o ddydd Llun i ddydd Iau a gorffen yn gynt ar ddydd Gwener) wedi bod yn beth da neu wael?**




*Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 47 - Ydych chi'n edrych ymlaen at orffen yn gynnar ar ddydd Gwener?**




*Atebodd 29 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Dywedodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr eu bod yn edrych ymlaen 'bob amser' (76%) neu 'y rhan fwyaf o'r amser' (14%) at orffen yn gynnar ar ddydd Gwener, er bod lleiafrif bychan yn dweud eu bod 'weithiau' (7%) neu 'byth' (3%) yn edrych ymlaen at hynny. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu, er bod gorffen yn gynnar yn apelio at y rhan fwyaf o ddisgyblion, nid oedd yn apelio at rai ac mae'n bwysig ystyried pam hynny.

Wrth ehangu ar y rhesymau dros eu barn am orffen yn gynharach, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (43%) mai cael 'mwy o amser i orffwys' oedd y peth gorau am adael ysgol yn gynnar ar brynhawn Gwener. Fel y nodir yn Ffigur 48, roedd 32% arall yn teimlo mai 'treulio mwy o amser gyda'r teulu' oedd y peth gorau am wythnos ysgol fyrrach, tra bod cyfran lai yn teimlo mai' cael mwy o amser gyda ffrindiau' (14%) oedd y ffactor pwysicaf. Roedd tua un o bob 10 (11%) o ddisgyblion yn credu mai 'cael mwy o amser i wneud gwaith cartref' oedd y budd mwyaf.

Yn dilyn ymlaen o ffigurau 47 a 48, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn mwynhau'r ysgol yn well nawr, ar ôl gwneud newidiadau i'r amserlen, neu cyn y newidiadau. Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion (54%), fel y nodir yn Ffigur 49 isod, eu bod yn 'mwynhau'r ysgol yn well nawr', o gymharu â 36% a ddywedodd eu bod yn mwynhau'r ysgol tua'r un fath. Yn gyffredinol, dywedodd un o bob 10 (11%) eu bod yn 'mwynhau'r ysgol yn well cyn' i newidiadau gael eu gwneud i'r amserlen.


Roedd sylwadau cyffredinol eraill a wahoddwyd ar ddiwedd yr arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y mwyafrif yn ffafrio'r trefniadau newydd a gyflwynwyd gan yr ysgol. Ychwanegodd yr ymatebwyr:

**'Mae'n llawer gwell gen i'r amserlen nawr gan fyd mod i'n gallu gorffen gwaith cartref neu brosiectau ar ddydd Gwener sy'n rhoi'r penwythnos yn rhydd i mi gymdeithasu â fy ffrindiau a'm teulu heb orfod poeni am ruthro i orffen gwaith ysgol.'**

**'Mae gorffen yn gynnar ar ddydd Gwener yn rhoi amser pwysig i mi gyda mam pan dyw hi ddim yn coginio, glanhau neu'n gofalu am fy chwaer fach; rydym yn cael amser i fynd am dro, cael hufen iâ a chael sgwrs; mae'r dyddiau eraill yn brysur a dydyn ni ddim cael amser i wneud pethau neis – mae prynhawn Gwener yn arbennig i ni.'**


**'Dwi'n gweithio'n galetach yn ystod yr wythnos (Lluniau) er mwyn gorffwyso ddydd Gwener. Dwi'n fwy brwdfrydig yn ystod yr wythnos wrth weithio tuag at y nod.'**

**Ffigur 48 - Beth yw'r peth gorau am orffen yn gynnar ar ddydd Gwener (dewiswch un)?**




*Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 49 - Ydych chi'n mwynhau'r ysgol yn fwy nawr, ar ôl gwneud newidiadau i'r amserlen, neu oeddech chi'n ei mwynhau'n fwy o'r blaen?**




*Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

## Prif ganfyddiadau'r arolwg: Rhieni

Datblygwyd arolwg byr gan ddefnyddio adnodd arolwg Qualtrics a'i ddosbarthu i fwyafrif rhieni Ysgol Gyfun Treorci drwy e-bost, i'w gwblhau yn ystod mis Awst a mis Medi 2020. Cyflwynir canlyniadau canfyddiadau'r arolwg mewn graffiau a chyfran yr ymatebion fel canran, er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Mae canrannau wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100. I gefnogi hygyrchedd, mae geiriad rhai cwestiynau ac eitemau yn yr arolwg wedi'u talfyrru. Mae'n bwysig nodi bod pawb yn y sampl a nodwyd wedi cyflwyno eu harolwg i'w ystyried ond nad oedd pob cyfranogwr wedi cwblhau pob cwestiwn; nodir hyn yn glir yn y tudalennau nesaf.


### Nodweddion yr ymatebwyr

Yn ystod y broses o gasglu data, ymatebodd 127 o rieni disgyblion Ysgol Gyfun Treorci (n=127) i'r arolwg ar-lein. O'r rhain, roedd 115 (91%) yn fenywod a 12 (9%) yn ddynion. Roedd gan y mwyafrif un plentyn yn yr ysgol (76%), gyda 21% yn dweud bod ganddynt ddau a 2% yn dweud bod ganddynt dri. Roedd gan un ymatebydd bedwar neu fwy o blant yn yr ysgol. Cymerodd rhieni plant y saith grŵp blwyddyn uwchradd ran yn yr arolwg.

### Effaith ar rieni

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr am effaith newid i'r wythnos anghymesur arnynt fel rhieni. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r ffordd yr ymgynghorodd yr ysgol â nhw am y newidiadau, ac a oeddynt yn teimlo eu bod wedi cael digon o gyfle i gyfrannu at y trefniadau newydd. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 50 isod.

**Ffigur 50 - Pa mor fodlon ydych chi bod yr ysgol wedi ymgynghori ddigon â chi cyn symud i wythnos anghymesur?**





*Atebodd 94 o ymatebwyr y cwestiwn*

Fel yr amlinellir uchod, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (60%) eu bod naill ai'n 'fodlon iawn' neu'n 'fodlon' bod yr ysgol wedi ymgynghori digon â nhw cyn symud i wythnos anghymesur. Dywedodd tua dau o bob 10 (21%) eu bod 'ddim yn fodlon nac anfodlon', tra bod 19% arall yn dweud eu bod naill ai'n 'anfodlon' neu'n 'anfodlon iawn' â lefel yr ymgynghori gan yr ysgol.

Yn Ffigur 51, gofynnwyd i'r rhieni i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â phenderfyniad yr ysgol i gau'n gynt ar brynhawn Gwener. Dywedodd y mwyafrif (53%) eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' â phenderfyniad yr ysgol, tra bod 29% arall yn dweud nad oeddynt yn 'cytuno nac anghytuno'. Roedd llawer llai o ymatebwyr (19%) yn dweud eu bod yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' â'r diwedd cynharach i'r wythnos ysgol. Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion a gyflwynir yn Ffigur 51 yn awgrymu cefnogaeth gref i benderfyniad yr ysgol i gwtogi'r wythnos ysgol rai oriau ar brynhawn Gwener.

**Ffigur 51 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno â phenderfyniad yr ysgol i gau'n gynharach ar brynhawn Gwener?**




*Atebodd 80 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Fel yr amlinellir yn Ffigur 52, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roedd trefnu gofal plant, trafnidiaeth ysgol, gweithgareddau allgyrsiol a phatrymau shifftiau/gwaith wedi bod yn heriol iddynt ers i'r ysgol symud i wythnos anghymesur. Cynlluniwyd y cwestiwn hwn i weld pa faes yn gysylltiedig â'r trefniadau newydd oedd wedi bod yn fwyaf heriol ac yn lleiaf heriol i rieni.

Yn ôl rhieni, trefnu gofal plant a thrafnidiaeth ysgol oedd agwedd leiaf heriol yr wythnos anghymesur, gyda 46% yn cadarnhau bod gwneud trefniadau newydd 'ddim yn heriol iawn/ddim yn heriol o gwbl' a 48% yn dweud yr un peth am drafnidiaeth ysgol. Dywedodd tua thraean o ymatebwyr fod trefnu gofal plant (32%) a thrafnidiaeth ysgol (35%) 'tua'r un fath', tra bod un o bob pump (21% gofal plant/17% trafnidiaeth ysgol) yn dweud bod y ddau yn 'heriol iawn/ychydig yn heriol'.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (41%) yn teimlo bod trefnu gweithgareddau allgyrsiol wedi arwain at tua'r un lefel o her o dan y trefniadau newydd, tra bod 39% yn teimlo eu bod 'ddim yn heriol iawn/ddim yn heriol o gwbl' i'w trefnu. Roedd un o bob pump o ymatebwyr (20%) yn credu bod trefnu gweithgareddau allgyrsiol wedi bod yn 'heriol iawn/ychydig yn heriol' ers symud i'r wythnos anghymesur.

Safbwyntiau ymatebwyr ar drefnu sifftiau/patrymau gwaith oedd fwyaf amhendant, gyda chymaint o rieni'n credu eu bod 'tua'r un fath' i'w trefnu ag oedd yn teimlo eu bod yn 'ddim yn heriol iawn/ddim yn heriol o gwbl' (35%). Roedd tua thraean (30%) yn credu bod trefnu sifftiau/patrymau gwaith yn 'heriol iawn/ychydig yn heriol'. Mae hyn yn awgrymu bod pa mor hawdd y gellir trefnu sifftiau/patrymau gwaith yn dibynnu ar amgylchiadau'r rhiant unigol.

## Effaith ar ddisgyblion


Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr am effaith y newid i'r wythnos anghymesur ar eu plant. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno bod y newid wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn/plant. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 53, isod.

Fel y nodir yn Ffigur 53, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (45%) 'ddim yn cytuno nac anghytuno' bod penderfyniad yr ysgol i symud i wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu plentyn/plant. Fodd bynnag, roedd mwy o rieni naill ai'n 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' (40%) mai dyma'r achos, nag oedd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' (15%).

Nesaf, gofynnwyd i rieni'n benodol am i ba raddau roeddynt yn cytuno bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles meddyliol, dysgu, ymddygiad a bywyd teuluol/cartref eu plentyn/plant. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 54, isod.


O ran y pedwar maes diddordeb, roedd mwy o ymatebwyr yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol na'r rhai a oedd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Fodd bynnag, mewn

**Ffigur 52 - Ers symud i'r wythnos anghymesur, i ba raddau mae trefnu'r canlynol wedi bod yn heriol i chi:**





*Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio, o 54 i 64*

**Ffigur 53 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod penderfyniad yr ysgol i newid i wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar eich plentyn/plant?**




*Atebodd 93 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 54 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar y canlynol mewn perthynas â'ch plentyn/plant:**




*Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio, o 79 i 81*

tair o'r pedair agwedd (iechyd a lles meddyliol, ymddygiad a bywyd teuluol/cartref), roedd mwy o rieni 'ddim yn cytuno nac anghytuno' bod eu plentyn/plant wedi elwa ar y trefniadau anghymesur nac oedd yn credu fel arall. Roedd o leiaf draean o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles meddyliol (41%) dysgu (41%), ymddygiad (34%) a bywyd teuluol/cartref (39%) eu plentyn/plant. Roedd tua un o bob pum rhiant (21%) yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu, tra bod tua un o bob 10 o rieni'n dweud yr un peth am iechyd a lles meddyliol, ymddygiad a bywyd teuluol/cartref eu plentyn/plant.


## Effaith ar yr ysgol

I orffen, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr am effaith newid i'r wythnos anghymesur ar eu hysgol, ac ysgolion yn fwy cyffredinol. Mae'r cyntaf yn cyflwyno barn gyffredinol ar effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gyfun Treorci. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 55, isod.

Mae Ffigur 55 yn cyflwyno darlun cymharol gadarnhaol ar y cyfan o effaith yr wythnos anghymesur ar Ysgol Gyfun Treorci. Er bod y mwyafrif (51%) 'ddim yn cytuno nac anghytuno' bod yr wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol, roedd bron i bedwar o bob 10 (39%) yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' ei fod wedi cael effaith gadarnhaol. Ar ben arall y sbectrwm, dim ond 11% oedd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod yr wythnos anghymesur wedi effeithio'n gadarnhaol ar yr ysgol. Mae'r data'n dangos bod llawer mwy o rieni'n teimlo bod y newid i'r wythnos anghymesur wedi bod yn beth da nag oedd yn credu fel arall.


Fel y nodir yn Ffigur 56 isod, gofynnwyd i'r rhieni a fyddent yn argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru. Ymatebodd mwyafrif y rhieni'n gadarnhaol, gan awgrymu y byddent yn 'debyg' neu'n 'bendant' (63%) o argymell yr wythnos anghymesur, tra bod 15% arall 'ddim yn siŵr' a 14% yn dweud na fyddent 'mae'n debyg'. Yn gyffredinol, dywedodd 8% o ymatebwyr na fyddent yn argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yn 'bendant'.

**Ffigur 55 - I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno bod penderfyniad yr ysgol i symud i wythnos anghymesur wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol?**




*Atebodd 93 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

**Ffigur 56 - Fyddech chi'n argymell yr wythnos anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru?**




*Atebodd 78 o ymatebwyr y cwestiwn hwn*

Cododd sylwadau cyffredinol eraill a wahoddwyd ar ddiwedd yr arolwg nifer o faterion pwysig a oedd yn wynebu rhieni a'u disgyblion. Roedd sawl un yn ymwneud ag effaith yr wythnos anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr, yn ogystal ag awgrymiadau ar sut i ddatblygu'r trefniadau cyfredol er gwell. Mae amrywiaeth o ymatebion wedi'u coladu isod:

**'Rwy'n credu bod angen datblygu'r wythnos anghymesur ymhellach yn awr i gynnwys cymysgedd o ddysgu gartref drwy blatfformau digidol, yn ogystal â gweithgareddau yn yr ysgol lle bo'n bosibl o fewn teuluoedd ac ysgolion a all gynnal hyn. Mae cael plant yn barod am arferion gweithio mwy hyblyg ac ystwyth yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.'**

**'Dyw e ddim yn fy effeithio i gymaint â hynny gan fod fy merch i'n 17. Ond fe fydden i wedi'i chael hi'n anodd iawn i gydbwyso gwaith a'i chasglu o'r ysgol pan oedd hi'n ieuengach. Rwy'n gallu deall pam fyddai rhieni sydd â phlant iau yn teimlo bod gorffen ysgol yn gynharach ar brynhawn Gwener yn anghyfleus.'**

**'Rwy'n teimlo bod fy merch ddim yn setlo mewn gwers oherwydd bod y gwersi'n fyrrach; erbyn iddi fwrw ati mae'n amser rhoi pethau yn y bag a symud i'r wers nesaf. Mae gormod yn cael ei wasgu i ddiwrnod ysgol.'**

**'Os oes gennych chi blentyn sy'n cael trafferth i ysgogi ei hun, bydd yn meddwl ei fod yn gorffen yn gynnar ar ddydd Gwener a dyna ni, nid ei fod yn gyfle i wneud gwaith ychwanegol.'**

**'Mae fy mhlentyn yn flinedig ar ôl dyddiau hirach ac amser cinio byrrach. Mae chwe gwers y dydd yn ormod. Mae adref ar ei ben ei hun brynhawn Gwener.'**

**'Rwy'n teimlo bod fy merch yn gweld y dyddiau hirach yn fwy blinedig a ddim yn canolbwyntio cymaint yn ystod gwersi'r p'nawn. Roedd hi wrth ei bodd yn gorffen yn gynnar ar ddydd Gwener ond roedd yn dioddef gweddill yr wythnos.'**

# 9. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dwy enghraifft gyferbyniol o sut y gellir cynllunio a gweithredu wythnos ysgol anghymesur a'r derbyniad a gaiff gan staff wedyn. Mae'n dangos bod yna fanteision posibl i newid trefnau ac amserlenni sefydledig, ond nad yw'r manteision hyn yn sicr a'u bod yn dibynnu ar gyd-destunau'r ysgolion unigol.

Yn wir, mae'r adroddiad yn fodd i atgoffa y bydd dulliau amserlennu newydd yn gweithio'n well i rai aelodau o'r gymuned ysgol nag eraill, ac y dylid ystyried yr effaith bosibl ar yr holl randdeiliaid yn ofalus cyn cyflwyno trefniadau newydd. Yn gyffredinol, roedd disgyblion a rhieni'n fwy cefnogol i'r newidiadau na'r staff, gyda gwahaniaeth nodedig yn eu hymatebion ar draws y ddwy ysgol.

Roedd ymgynghoriad trylwyr â'r holl grwpiau'n ymddangos yn hanfodol i broses yr ysgol o symud i drefniadau anghymesur, a chafodd nifer o newidiadau i'r amserlen eu hystyried yn y ddau achos. Roedd hyn yn gymorth i feithrin hyder yn y cynigion newydd, a sicrhau bod pob grŵp yn cael cyfrannu at y strwythurau ysgol terfynol. Mae'r wythnos anghymesur yn bolisi sy'n cynnwys y gymuned ysgol gyfan, ac felly'n gofyn am weithredu ysgol gyfan. Roedd staff y ddwy ysgol yn cytuno'n gyffredinol mai arweiniad cryf yw'r ffactor pwysicaf sydd ei angen i weithredu wythnos anghymesur yn llwyddiannus.

Mae'r adroddiad yn dangos bod yna fanteision clir iawn i iechyd a lles meddyliol y staff, yn sgil newid i'r wythnos anghymesur. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ym mhob achos, ac i rai, mae trefniadau amserlennu newydd wedi effeithio'n negyddol ar iechyd a lles meddyliol y staff, a morâl. Mae cyflwyno dyddiau ysgol hirach wedi bod yn her arbennig i rai. Roedd yna farn gyferbyniol hefyd ar effaith yr wythnos anghymesur ar ddisgyblion, gyda staff wedi'u rhannu ynghylch manteision amserlen newydd ar y dysgwyr eu hunain.

Ar y cyfan, roedd y cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddeilliodd yn sgil yr wythnos anghymesur yn cael eu hystyried yn ganlyniad cadarnhaol i drefniadau anghymesur i staff y ddwy ysgol. Mae hwn yn ganfyddiad arwyddocaol, yn enwedig yng nghyd-destun y *Cwricwlwm newydd i Gymru*; oherwydd os yw rhywun yn tybio y bydd cael amser a lle i fyfyrio ar ymarfer cyfredol yn dod yn rheidrwydd yn hytrach nag yn uchelgais, gallai amserlennu creadigol fod yn ateb ymarferol i gyfyngiadau cyllidebol heriol.

Mae trefnu gofal plant, trafnidiaeth ysgol a gweithgareddau allgyrsiol wedi bod yn heriol i lai o staff na fel arall. Roedd yr un peth yn wir am rieni a gydnabu effaith gadarnhaol trefniadau anghymesur ar iechyd a lles meddyliol, dysgu, ymddygiad a bywyd teuluol/cartref eu plentyn/plant yn gyffredinol. Yn wir, nododd disgyblion y ddwy ysgol fod treulio mwy o amser gyda'r teulu yn fantais fawr sy'n gysylltiedig â gorffen yn gynnar ar ddydd Gwener.

Fodd bynnag, nid oedd cwtogi'r wythnos ysgol ac ymestyn y penwythnos mor apelgar i rai ag eraill er ei fod yn boblogaidd gyda mwyafrif llethol y disgyblion ac efallai y gallai ysgolion ystyried ffactorau sy'n cyfrannu at pam mae rhai disgyblion yn dawedog am orffen ysgol yn gynharach ar ddydd Gwener. O ganlyniad i hyn a sawl rheswm arall dylid adolygu a gwerthuso trefniadau anghymesur yn barhaus, yn enwedig yn ystod y camau mabwysiadu cynnar.

Yn gyffredinol, mae *Gwerth wythnosau anghymesur: Gwersi a ddysgwyd gan ysgolion yng Nghymru* yn ddefnyddiol gan ei fod yn ychwanegu at y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, a chyda system addysg Cymru yn cael ei ailwampio'n sylweddol ar hyn o bryd, bydd yn darparu safbwynt newydd ar y posibiliadau a gynigir gan ddulliau newydd. Mae'n dangos y dylai unrhyw ysgol sy'n ystyried symud i wythnos fyrrach gydbwyso costau a manteision symudiad o'r fath yn ofalus, yn ogystal â'i effaith bosibl ar wahanol aelodau o'r gymuned ysgol.

Mae'r adroddiad yn cynnig cyfle i ysgolion ailfeddwl am arferion sefydledig i ddiwallu anghenion dysgwyr a staff yn y ffordd orau. Yn sgil pandemig COVID-19 sy'n dal i fynd rhagddo a newidiadau gorfodol i strwythurau ysgol mwy traddodiadol, gellid dadlau ei bod gystal amser ag erioed i ystyried y cyfleoedd sy'n deillio o wythnos ysgol anghymesur.

Mae mabwysiadu'r dulliau hyn yn llwyddiannus, fodd bynnag, yn dibynnu ar gael amgylchedd sy'n addas ar gyfer newid. Mae hyn yn dechrau ar lefel yr ysgol, wedi'i adeiladu ar weledigaeth o beth y gellir ei gyflawni ochr yn ochr â chyfranogiad cadarnhaol y staff a'r gymuned ysgol ehangach, ond mae hefyd yn ymestyn i lefel system gyfan, sy'n gofyn am ymrwymiad i arloesedd sy'n mynd y tu hwnt i'r ysgol ei hun. Mae'n debygol bod dyfodol trefniadau anghymesur yng Nghymru'n dibynnu ar y graddau y gellir symud y meddylfryd system gyfan hwn, a goblygiadau hynny ar gyfer atebolrwydd a mesurau perfformiad ysgolion.

Mae newid radical fel yr un yr ymchwiliwyd iddo yma'n gofyn am feddylfryd agored a phe bai yna ddymuniad cenedlaethol gwirioneddol i gyflwyno'r wythnos anghymesur byddai'n gofyn am newid mewn diwylliant ar draws pob haen o system addysg Cymru.

# 10. Argymhellion

Mae gan ganfyddiadau'r adroddiad nifer o oblygiadau ar gyfer ysgolion sy'n ystyried mabwysiadu wythnos anghymesur. Gan fanteisio ar brofiadau'r ddwy ysgol yn yr astudiaeth achos, cynigir y canlynol fel argymhellion ar gyfer y rhai sydd am ystyried trefniadau anghymesur:

- Dylai fod gan ysgolion sail resymegol gadarn dros ddymuno cyflwyno wythnos anghymesur, yn seiliedig ar y manteision posibl i staff a disgyblion;
- Mae'n rhaid cynnal proses ymgynghori lawn a thrylwyr cyn mabwysiadu, i roi cyfle i randdeiliaid allweddol gyfrannu at gynigion a rhoi adborth arnynt;
- Mae'n rhaid i ysgolion weithio gyda'u hawdurdod lleol i ystyried y cwmpas ar gyfer newid trafnidiaeth ysgol a hebryngwyr croesfannau ysgol, a'r costau posibl sy'n gysylltiedig ag addasiadau o'r fath;
- Dylid ystyried newidiadau i gontractau staff a rheoli adnoddau dynol i ymdopi â disgyblion sy'n dymuno aros yn yr ysgol drwy'r wythnos (yn unol â gweithdrefnau arferol);
- Dylai ysgolion gydnabod yr opsiynau anghymesur gwahanol sydd ar gael iddynt, a phenderfynu ar strwythur sy'n gweithio iddyn nhw a'u cymuned ysgol ehangach. Gall newidiadau i amserlenni presennol fod yn gynnil neu'n fwy radical, a dylid eu cyflwyno ar sail angen yn unig;
- Os oes newidiadau'n cael eu gwneud i greu mwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod sesiynau/gweithgareddau perthnasol yn cael eu nodi, er mwyn parhau i fod yn ystyrlon ac o werth gwirioneddol;
- Yn yr un modd, mae'n rhaid cymryd camau i sicrhau bod gan ddisgyblion sy'n dymuno aros yn yr ysgol y tu hwnt i oriau agor 'traddodiadol' weithgareddau priodol i'w gwneud, gyda staff angenrheidiol i'w cynorthwyo;
- Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau llinell gyfathrebu gref â rhieni a'r gymuned ehangach, gan ddarparu sail resymegol ar gyfer newid a chyfleoedd parhaus ar gyfer myfyrio. Anogir ysgolion i ddarparu diweddariadau rheolaidd, yn enwedig yng nghamau cynnar y newid i drefniadau anghymesur;
- Mae angen arweiniad cryf i gyflwyno newid anghymesur, ac i feithrin diwylliant o chwilfrydedd ac arloesedd sydd ei angen i gofleidio a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio;
- Mae'n rhaid i ysgolion fod yn barod i addasu eu trefniadau anghymesur fel y bo'n briodol. Dylid ystyried cyfnod treialu i ddatrys anawsterau posibl a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau na chafodd eu rhagweld;
- Dylid gwerthuso trefniadau newydd yn barhaus a dylai ysgolion drefnu bod cyfleoedd strwythuredig i adolygu datblygiadau a chynnydd anghymesur, gan sicrhau cynrychiolaeth o bob rhan o'r gymuned ysgol;
- Dylid deall gofynion cyfreithiol a deddfwriaethol yn dda, a dylai ysgolion roi ystyriaeth lawn i'r cyfyngiadau sydd ar waith i gyfyngu ar beth allant ei newid a phryd;
- Fel y bo'n briodol, dylai ysgolion ymgysylltu ag ysgolion cyfagos ac archwilio'r posibilrwydd o ddull mwy cydweithredol o weithredu'r wythnos anghymesur sy'n cynnwys clystyrau o ysgolion, er mwyn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol a rennir;
- Dylai ysgolion ystyried cyflymder y newid, ac a yw newid graddol i drefniadau newydd yn well na newid popeth yn llwyr yr un pryd.

# 11. Cyfeiriadau


Aberdeen City Council. 2008. Reconfiguration of the school week. *Cyngor Dinas Aberdeen,* 10 Mehefin. https://bit.ly/2Xcxfoo

Anderson, D. M. a Walker, M. B. 2015. Does shortening the school week impact student performance? Evidence from the four-day school week. *Education Finance and Policy*, 10 (3), 314-349.

Arthur, J., Waring, M., Coe, R., a Hedges, L.V. *2012. Research methods and methodologies in education*. Llundain: Sage Publications.

Barber, M., Mourshed, M. a Chijioke, C. 2010. *How the world's most improved school systems keep getting better*. Llundain: McKinsey and Co.

BBC Scotland. 2014. Scottish Borders Council approves 'asymmetric' school week. *BBC Scotland*, 27 Mawrth. https://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-south-scotland-26756691

BBC Wales. 2020. Coronavirus: Pupils in Wales back in school full-time in September. *BBC Wales*, 9 Gorffennaf. https://www.bbc.co.uk/news/uk-53349005

Beesley, A.D. ac Anderson, C. 2007. The four-day school week: Information and recommendations. *The Rural Educator*, 28 (Fall), 48-55.

Bitton, D. 2016. Morrison and Glencoe optimistic about four-day school week. *Stillwater News Press*, 29 Medi. http://www.stwnewspress.com/news/morrisonand-glencoe-optimistic-about-four-day-schoolweek/article_a0b6acb9-77a8-52e0-bf63-6eec1545022c.html

Cyngor Dinas Caeredin. 2004. Consultation on the asymmetric week: Item number 7. Report number E/277/04-05/ED. *Cyngor Dinas Caeredin.* https://www.edinburgh.gov.uk/download/meetings/id/6720/consultation on_the_asymmetric_week

Cummings, M. 2015. Adults love the four-day school week: Is it good for the kids? *Slate*, May 13. http://www.slate.com/blogs/schooled/2015/05/13 /the_four_day_school_week_is_it_good_for_the _kids.html

Dam, A. 2006. *The 4-day school week*. Denver, CO: Adran Addysg Colorado.

*Denzin, N. K. A Lincoln, Y. S. 2011. The Sage handbook of qualitative research (4ydd argraffiad). Los Angeles, CA: Sage.*

Dixon, P. 2016. *Testing times: Success, failure and fiasco in education policy in Wales since devolution*. Caerdydd: Gwasg Academaidd Cymru.

Donaldson, G. 2015. *Dyfodol Llwyddiannus.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Donis Keller, C. a Silvernail, D. L. 2009. *Research brief: A review of the evidence on the four-day school week prepared by a review of the evidence on the four-day school week*. University of Southern Maine: Center for Education Policy, Applied Research and Evaluation.

Drew, V. a Priestley, M. 2016. *Successful futures, successful curriculum development; developing the new curriculum in your school*. Papur a gomisiynwyd gan EAS.

EEF. 2020. *Impact of school closures on the attainment gap: Rapid evidence assessment.* Llundain: EEF.

Evans, G. 2015. *A class apart: Learning the lessons of education in post-devolution Wales*. Caerdydd: Gwasg Academaidd Cymru.

Evans, G. 2018. Sôn: Afraid to be brilliant? *EWC*, 10 Gorffennaf. https://www.ewc.wales/site/index.php/en/about/staff-room/son.html

Fager, J. 1997. *Scheduling alternatives: Options for student success*. Portland: Northwest Regional Educational Laboratory.

Fullan, M., Quinn, J., Drummy, M. a Gardner, M. 2020. *Education reimagined: The future of learning*. A collaborative position paper between New Pedagogies for Deep Learning and Microsoft Education.

Furlong, J. 2015. *Addysgu Athrawon Yfory*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Harp, L. 1995. Four-day week finds a niche in rural West. *Education Week*, 14 (35), 3.

Herring, C. 2010. Schools' new math: The four-day week. *The Wall Street Journal*, Mawrth 8. https://www.wsj.com/articles/SB10001424052748704869304575104124088312524

Heyward, G. 2017. *A user's guide to the four-day school week: How to assess district readiness and evaluate the results*. University of Washington Bothell: Center on Reinventing Public Education.

Highland Parent Council Partnership. 2017. Highland Parent Council Partnership Annual Conference and AGM 2017: Minutes of meeting. *Highland Parent Council Partnership*, November 18. http://www.highlandpcp.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/HPCP-Conference-2017-Minutes-Final.pdf

Hill, P. T. a Heyward, G. 2015. *The four-day school week in rural Idaho schools*. Boise, *ID*: *Rural Opportunities Consortium* of *Idaho*.

Keen, R. 2007. *Area districts mulling four-day school week: Impact on parents, students, staff among considerations*. Aberdeen: American News.

Koki, S. 1992. *Modified school schedules: A look at the research and the Pacific*. Honolulu, HI: Pacific Region Educational Laboratory.

Monk, D. H. 2007. Recruiting and retaining high quality teachers in rural areas. *The Future of Children/Center for the Future of Children, the David and Lucile Packard Foundation*, 17 (1), 155-174.

Cyngor Moray. 2016. The structure of the secondary school week: Report to Children and Young People's Services Committee. *Moray Council*, 9 Tachwedd. http://www.moray.gov.uk/minutes/data/CP20161109/Item%2015-The%20Structure%20of%20the%20Secondary%20School%20Week-R.pdf

OECD. 2020. *Education responses to COVID-19: An implementation strategy toolkit*. Paris: OECD.

Parsley, D. a Barton, R. 2015. The myth of the little red schoolhouse: Challenges and opportunities for rural school improvement. *Peabody Journal of Education*, 90 (2), 191-193.

Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru. 2016. *Asymmetric school weeks*. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

Cymwysterau Cymru. 2020. *Graddau Haf 2020 ar gyfer TGAU, Safon UG a Safonau Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau (SCC)*. Casnewydd: Cymwysterau Cymru.

Scottish Borders Council. 2013. Proposals to move to an asymmetric school week: Report by Director of Education and Lifelong Learning. *Scottish Borders Council*, Rhagfyr 12. https://scottishborders.moderngov.co.uk/Data/Scottish%20Borders%20Council/201 312121000/Agenda/Item%20No.%2013%20-%20Asymmetric%20Week%20report.pdf

Seidman, I. E. 1991. *Interviewing as qualitative research: A guide for researchers in education and the social sciences*. Efrog Newydd: Teachers College Press.

Taylor M. C. 2005. *Interviewing in qualitative research in health care* (Holloway I. gol.). Maidenhead, Lloegr: McGraw-Hill Education, t39-55.

Turner, J., Finch, K. ac Uribe-Zarain, X. 2019. Three Midwest rural school districts' first year transition to the four day school week: Parents' perspectives. *The Rural Educator* 40 (1), 1-15.

Prifysgol Glasgow a Choleg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. 2018. *Camau project: Research report*. Carmarthen: UWTSD.

Waters, M., Jones, M. a Macdonald, A. 2018. *Addysgu: Proffesiwn Gwerthfawr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2015. *Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2017. *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl. Cynllun Gweithredu 2017-2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2018. Y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol: Crynodeb o sut mae dysgu proffesiynol y newid i ddiwallu anghenion y cwricwlwm newydd. *Llywodraeth Cymru*, 14 Tachwedd. https://llyw.cymru/y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol

Llywodraeth Cymru. 2019. Datganiad Ysgrifenedig: Panel Arbenigol i Ail-greu Addysg. *Llywodraeth Cymru*, 9 Gorffennaf. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-panel-arbenigol-i-ail-greu-addysg

Llywodraeth Cymru. 2020a. *Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref: Diogelu Addysg (COVID-19)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2020b. *Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref: Diogelu Addysg (COVID-19)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Western Telegraph. 2018. Ysgol Harri Tudor/Henry Tudor School and Pembroke Dock Community School propose new school week timetable. *Western Telegraph*, January 30. https://www.westerntelegraph.co.uk/news/15906536.ysgol-harri-tudorhenry-tudor-school-and-pembroke-dock-community-school-propose-new-school-week-timetable/

Wilmoth, S. 1995. *The four-day school week and how it affects student achievement*. Doctoral dissertation, Prifysgol Arkansas.

Yin, R. K. 2014. *Case study research: Design and methods.* Los Angeles, CA: Sage.

# 12. Atodiad

## Cwestiynau cyfweliad arweinydd ysgol

- Pam wnaethoch chi symud i wythnos ysgol anghymesur a beth oedd eich cyfiawnhad dros y symud?
- A wnaethoch chi ymchwilio i'r wythnos ysgol anghymesur cyn ei gweithredu? Os do, pa waith oedd fwyaf o ddiddordeb i chi? A wnaethoch chi ddefnyddio unrhyw enghreifftiau penodol?
- I ba raddau yr oedd staff, disgyblion a'r gymuned ysgol ehangach yn rhan o'r penderfyniad i newid i wythnos ysgol anghymesur?
- Pa newidiadau strwythurol, os o gwbl, oedd eu hangen fel rhan o'ch newid i wythnos ysgol anghymesur?
- A oedd yna gostau ariannol yn sgil newid i'r wythnos ysgol anghymesur?
- Pa mor bwysig yw arweinyddiaeth ysgol wrth fabwysiadu a gweithredu'r wythnos ysgol anghymesur?
- Beth yw manteision y dull anghymesur i staff?
- Beth yw manteision y dull anghymesur i ddisgyblion?
- I ba raddau mae'r newid i wythnos ysgol anghymesur wedi effeithio ar berfformiad disgyblion?
- I ba raddau mae'r wythnos ysgol anghymesur wedi effeithio ar iechyd a lles meddyliol y staff?
- Ydych chi'n teimlo bod yr amser dysgu proffesiynol ychwanegol, sy'n deillio o'r wythnos ysgol anghymesur, wedi dod â staff yn agosach at ei gilydd a chefnogi cydweithio o fewn yr ysgol rhwng adrannau/cyfnodau?
- Yn yr un modd, ydych chi'n teimlo ei fod wedi dod â staff o wahanol ysgolion yn agosach at ei gilydd a chefnogi cydweithio rhwng ysgolion?
- I ba raddau ydych chi wedi rhannu'r hyn rydych wedi'i wneud gyda chydweithwyr mewn ysgolion eraill, ac a yw cydweithwyr wedi gofyn am eich cyngor?
- Beth oedd y prif heriau i weithredu'r wythnos ysgol anghymesur?
- Oes gennych chi gynlluniau i ddatblygu'r strwythur anghymesur ymhellach i ddiwallu anghenion yr ysgol a'i staff/ disgyblion yn well?
- A fyddech chi'n cefnogi dull cenedlaethol o ad-drefnu'r wythnos ysgol?
- A fyddech chi'n argymell wythnos ysgol anghymesur i ysgolion eraill yng Nghymru?
- A yw'r wythnos ysgol anghymesur wedi bod yn ddefnyddiol i ddatblygu dull eich ysgol o weithredu'r *Cwricwlwm i Gymru*?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu hychwanegu?

Dyfynnwch y cynnwys hwn fel: Evans, G. 2020. *Gwerth wythnosau ysgol anghymesur: Gwersi a ddysgwyd o ysgolion yng Nghymru*. Abertawe: Canolfan Ddadansoddi ac Adolygu Polisi Addysg, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

agaa.cymru | nael.cymru